Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
[redacted]
www.olderpeoplewales.com

National Assembly for Wales / Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Health and Social Care Committee /
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill /
Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)
Evidence from Older People's Commissioner for Wales – RISC 45
/ Tystiolaeth gan Gomisiynydd Pobl Hŷ n Cymru– RISC 45

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sgwar Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Ebrill 2015

Annwyl Gadeirydd,

Ymgynghoriad ar Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Diolch i chi am y cyfle i roi tystiolaeth ysgrifenedig gychwynnol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithas ar egwyddorion cyffredinol Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Yn rhinwedd fy swydd fel Comisiynydd, mae gen i swyddogaeth statudol, fel y mae wedi'i nodi yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007, i adolygu'n barhaus pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r gyfraith sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru.

Oherwydd pwysigrwydd newidiadau mewn gofal cymdeithasol i bobl hŷn ac wedyn bwysigrwydd sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio ac arolygu ynglŷn â gofal cymdeithasol yn rhoi sylw effeithiol i'r materion sy'n cael eu

codi gan bobl hŷn, rwy'n cyflwyno'r dystiolaeth hon er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon.

Fel yr amlinellwyd yn fy Fframwaith Gweithredu ar gyfer 2013-17, sy'n nodi fy mlaenoriaethau fel Comisiynydd, mae gen i ddiddordeb eang yn ansawdd gofal iechyd a gofal cymdeithasol a'u heffaith ar fywydau pobl hŷn. Mae gen i ddiddordeb yn benodol mewn cartrefi gofal yn sgil fy Adolygiad cyfreithiol[1] o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y sylwadau manwl yr wyf wedi'u hatodi.

Mae rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yn bwysig i bobl hŷn, ac yn creu effaith bendant ar eu profiadau o'r 'system' a'u profiadau ynddi, ansawdd ac effaith y gofal a'r cymorth y maen nhw'n eu cael, a'u hansawdd bywyd yn gyffredinol. Er hynny, nid yn y cyd-destun hwn y maen nhw'n siarad am hyn. Yn hytrach, maen nhw'n dweud wrtha i:

1. **Mae'n anodd iawn pwyso a mesur ansawdd y gofal a'r cymorth sy'n cael eu rhoi neu eu cynllunio am fod yna ddiffyg gwybodaeth ystyrlon, hwylus a dealladwy. Yn aml mae'n teimlo fel palu drwy doreth o adroddiadau gwahanol sy'n gallu bod yn annelwig ac yn anghyson. Mae hynny'n ei gwneud yn anodd i unigolion wneud penderfyniadau sy'n briodol iddyn nhw a chodi pryderon a chwynion.**

   "Dod o hyd i gartref gofal addas i'r gŵr oedd y peth mwyaf torcalonnus dwi wedi gorfod ei wneud erioed. Doedd yr wybodaeth gawsoch chi ddim bob amser yr un fath â'r hyn roeddech chi'n ei weld wrth ymweld â'r lle. Doedd y gobaith eich bod chi wedi gwneud dewis da ddim yn glir nes eich bod chi wedi symud i mewn." **Aelod o deulu**

2. **Dydy camau ddim yn cael eu cymryd yn ddigon cyflym i gywiro gofal gwael. Mae gofal gwael yn cael ei oddef a does neb fel pe bai'n atebol pan fydd pethau'n mynd o chwith.**

   "Dwi wedi codi hyn drosodd a throsodd a does dim byd byth yn cael ei wneud." **Aelod o deulu**

[1] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Lle i'w Alw'n Gartref? Adolygiad o Ansawdd Bywyd a Gofal Pobl Hŷn sy'n Byw mewn Cartrefi Gofal Preswyl, 2014

3. **Does gan y staff mo'r sgiliau i ateb anghenion pobl nac i weld yr unigolyn. Yn rhy aml mae pwysigrwydd sut mae pethau'n cael eu gwneud yn cael ei anghofio.**

   "Doedden nhw ddim wedi cael eu hyfforddi. Fe ofynnes i a'r unig hyfforddiant roedden nhw wedi'i gael oedd iechyd a diogelwch a thrafod â'r dwylo, doedd ganddyn nhw ddim syniad sut i ateb anghenion preswylydd, yn enwedig o ran dementia." **Aelod o deulu**

Mae rheolwyr a darparwyr Cartrefi Gofal hefyd yn dweud wrtha i mai eu profiad nhw o'r system rheoleiddio ac arolygu yw eu bod yn teimlo bod gofynion gwahanol yn aml yn cael eu gosod arnyn nhw rhwng comisiynwyr a chyrff rheoleiddio. Dywedodd rheolwyr cartrefi gofal preswyl a chartrefi gofal nyrsio yn glir iawn drwy fy Adolygiad o Gartrefi Gofal[2] nad oes fawr o gefnogaeth ar gael yn aml pan fyddan nhw'n ei chael yn anodd rhoi gofal derbyniol neu pan hoffen nhw newid eu dulliau.

O'm safbwynt i fel Comisiynydd, mae yna lawer yn y bwriad y tu ôl i'r Bil yr wyf yn ei groesawu:

- **Mae atebolrwydd darparwyr gofal** dros ansawdd y gofal a'r cymorth sy'n cael ei roi yn hollbwysig. Dylai perchnogion cartrefi gofal yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u cydnabod fel unigolion cyfrifol fod yn atebol ac rwy'n croesawu bwriad y Bil i symud ymlaen ynglŷn ag atebolrwydd. Er hynny, mae pethau penodol wedi'u hepgor a meysydd penodol i wella arnyn nhw ac rwy'n ymhelaethu ar y rhain yn fy ymateb. Rhaid i atebolrwydd gael ei ymestyn hefyd i berchnogion gwasanaethau a dylai 'ffitrwydd i fod yn berchennog' gael ei gynnwys yn y Bil. I gyd-fynd ag atebolrwydd, rhaid hefyd cael sancsiynau posibl ac rwy'n croesawu'r trosedd ditiadwy arfaethedig o fethu cydymffurfio ag unrhyw ofyniad sydd wedi'i osod gan arolygwyr.

- **Pwerau mwy effeithiol i'r rheoleiddiwr weithredu'n gyflym ac yn bendant pan fernir bod gofal yn 'amhosibl ei gywiro'.** Er fy mod yn croesawu hyn, mae yna fater pwysig y mae angen edrych ymhellach arno, sef sut y pennir 'amhosibl ei gywiro' ac a fydd yna

[2] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Lle i'w Alw'n Gartref? Adolygiad o Ansawdd Bywyd a Gofal Pobl Hŷn sy'n Byw mewn Cartrefi Gofal Preswyl, 2014

amgylchiadau byth lle bydd esemptiadau neu eithriadau'n cael eu gwneud. Mae hyn yn mynd i galon yr hyn rydyn ni'n fodlon ei oddef ac am ba hyd, a oedd yn un o'r negeseuon canolog a gododd o'm Hadolygiad o Gartrefi Gofal. Mae angen i'r rheoliadau a'r codau sylfaenol fod yn glir ynglŷn â hyn, yn ogystal â'r meini prawf y bydd dyfarniad bod angen gweithredu'n gyflym yn cael ei wneud yn eu herbyn, a ddylai fod yn agored, yn dryloyw ac yn y bau gyhoeddus.

- **Ymgorffori llesiant yn y system reoleiddio**. Gwelodd fy Adolygiad o Gartrefi Gofal fod yna ffocws yn rhy aml ar yr agweddau ar ofal sy'n ymwneud â'r gweithredu, gan ddibynnu ar ddulliau sy'n canolbwyntio ar y dasg. Er fy mod yn croesawu'r bwriad i ymgorffori deilliannau llesiant yn llawn yng nghanol y broses arolygu, ochr yn ochr â safonau gofal a chymorth, mae'n rhaid i'r safonau ynglŷn â'r gofal a'r cymorth a roddir gael eu cysoni ag ansawdd bywyd a llesiant yn gyffredinol a rhaid cael ymagwedd gyson at hyn drwy'r system i gyd, yn enwedig rhwng y rheoleiddwyr a'r comisiynwyr. Byddwn yn disgwyl gweld cysoni agos rhwng y deilliannau llesiant a gynigir yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a'r agweddau allweddol ar ansawdd bywyd yn fy Adolygiad i o Gartrefi Gofal (gweler Atodiad B). Byddwn hefyd yn disgwyl gweld y deilliannau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gryf yn ffurflenni blynyddol y darparwyr.

- **Mae gwell gwybodaeth am ansawdd y gofal a roddir** yn aml yn rhywbeth y mae pobl hŷn yn dweud wrtha i yr hoffen nhw ei gweld yn cael ei gwella. Rwy'n rhoi croeso cynnes i fwy o fod yn agored a thryloyw ac rwy'n disgwyl i ofal cymdeithasol adlewyrchu'r ymagwedd sydd wedi'i mabwysiadu gan fyd iechyd drwy lunio Datganiadau Ansawdd Blynyddol. Rhaid i adroddiadau gynnwys gwybodaeth am ansawdd y gofal a gafwyd ac ansawdd bywyd yn gyffredinol a'r deilliannau sydd wedi'u sicrhau drwy ddarparu gofal a chymorth. Rhaid i'r dangosyddion a ddefnyddir i fesur hyn fod yn ystyrlon, yn ddealladwy ac yn berthnasol i bobl hŷn. Unwaith eto, rwy'n glir yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal ynglŷn â'r hyn y dylid ei gynnwys.

- **Mae sefydlogrwydd y farchnad** yn fater arwyddocaol iawn. Mae digwyddiadau diweddar yng Nghymru wedi dangos yr effaith y gall darparwr ei gael drwy dynnu'n ôl neu drwy gael ei gau ar yr unigolion a fu'n dibynnu ar y gofal a'r cymorth hwnnw yn ogystal ag ar y system gofal cymdeithasol yn ehangach. Fe fues i'n glir iawn ynglŷn â hyn yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal ac mae Angen Gweithredu 7.1 yn nodi fy mod yn disgwyl gweld cynllun cenedlaethol er mwyn sicrhau cyflenwad o gartrefi gofal o safon yn y dyfodol. Gan hynny, rwy'n croesawu'r ddyletswydd i gyhoeddi adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Genedlaethol. Er hynny, mae'n rhaid iddo gael ei gryfhau drwy gynnwys yn y Bil ddyletswydd ddilynol ar y Gweinidogion i weithredu i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod yna sylfaen cynaliadwy o ddarparwyr o safon. Dylai fod yn ofynnol i gomisiynwyr roi cymhellion i ddarparu gwasanaethau o safon er mwyn dod i mewn i'r farchnad yng Nghymru ac aros ynddi, ac er mwyn tynnu o'r farchnad y rhai sydd yn gyson yn darparu gofal gwael ac annerbyniol. Rwyf o'r farn na ddylai gofal gwael gael ei oddef am nad oes dewis arall ar gael, a bod rhaid gosod ansawdd wrth galon sefydlogrwydd y farchnad. Er fy mod yn croesawu'r ffocws ar hyfywedd ariannol y darparwyr, fydd hynny ynddo'i hun ddim yn ddigon i ddarparu sylfaen o safon.

- **Gofal Cymdeithasol Cymru.** Un mater allweddol yw sut i sicrhau bod gan y bobl sy'n gweithio yn y sector y sgiliau cywir, eu bod yn gwybod yr hyn sy'n cael ei ddisgwyl oddi wrthyn nhw a bod y rhai sydd yn gyson yn rhoi gofal gwael yn cael eu hatal rhag gweithio yn y sector. Rwy'n croesawu'r pwerau estynedig i reoleiddiwr y gweithlu cymdeithasol, ond does gan y Bil ddim digon o fanylion yn hyn o beth. Rhaid i Gofal Cymdeithasol Cymru gael y pŵer cyfreithiol i osod safonau gorfodol cenedlaethol ynglŷn â'r rhai sy'n gweithio yn y gweithlu gofal cymdeithasol, gan amrywio o recriwtio i asesu perfformiad. Fel mae'n sefyll ar hyn o bryd, nid yw'r Bil yn ymestyn cofrestru'r gweithlu i unrhyw grwpiau ychwanegol o weithwyr gofal cymdeithasol. Nid yw hyn yn adlewyrchu i ba raddau y mae pobl hŷn mewn cartrefi gofal yn agored i niwed ac mae'n arwain at ddiffyg cydraddoldeb â grwpiau eraill sy'n agored i niwed.

Er bod llawer yn y Bil i'w groesawu, mae'n rhaid i'w fwriad gael ei roi ar waith er mwyn iddo gael effaith gadarnhaol ar bobl hŷn gan fynd i'r afael, mewn ffordd a all gael ei chloriannu, â'r tair beirniadaeth allweddol a nodwyd ar ddechrau'n llythyr hwn. Yn fy marn i, nid yw'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn gwneud cysylltiad yn ôl yn ddigonol â'r deilliannau clir a fyddai'n berthnasol i bobl hŷn heblaw mewn ystyr gyffredinol ehangach e.e. bod yn fwy agored a thryloyw.

Mae sylwebaeth fanwl ar y Bil arfaethedig wedi'i hatodi. Hoffwn godi nifer o sylwadau cyffredinol hefyd:

Roeddwn i'n ymwybodol o ddatblygiadau'r Bil ac felly cafodd fy Anghenion Gweithredu, a nodwyd drwy fy Adolygiad o Gartrefi Gofal, eu hysgrifennu mewn modd a oedd yn eu galluogi i gael eu codi i'r Bil a'u hadlewyrchu'n hawdd yn y ddeddfwriaeth hon. Mae hynny wedi digwydd i raddau ond nid i'r graddau yr hoffwn eu gweld. Un rheswm am hyn yn rhannol yw'r diffyg manylion ar wyneb y Bil, ond fe hoffwn gael mwy o sicrwydd y caiff fy Anghenion Gweithredu eu rhoi ar waith drwy reoliadau a chodau ymarfer atodol os na chân nhw eu cynnwys ar wyneb y Bil.

Mae'n hollbwysig bod y Bil yn parhau i ganolbwyntio, fel y gwnaeth y Fframwaith Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy gwreiddiol, ar yr effaith a gaiff ar fywydau pobl. Ar ben hynny, un peth pwysig sydd wedi'i hepgor o'r Bil yw cyfeiriad at Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar Bobl Hŷn a'r angen i'r gyfundrefn rheoleiddio ac arolygu gael ei seilio ar ymagwedd sy'n hybu hawliau dynol. Yn rhinwedd fy swydd fel Comisiynydd, rwy'n awyddus i weld sylw priodol i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar wyneb y Bil er mwyn sicrhau cysondeb â'r bwriad a gafwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o roi llais cryf a rheolaeth wirioneddol i bobl a sicrhau bod hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, a hawliau eu gofalwyr, yn cael eu cadarnhau.

Rwyf wedi rhoi cefnogaeth gref i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymagwedd integredig at iechyd a gofal cymdeithasol ac felly mae'n anodd deall pam nad yw hyn yn ymestyn i Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), sef rhywbeth sy'n cyfyngu gallu'r Bil i roi sicrwydd systemig ynghylch ansawdd gofal a deilliannau ystyrlon i bobl hŷn yng

Nghymru, yn enwedig o ran gofal pobl sy'n byw mewn cartrefi nyrsio neu anghenion iechyd pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl.

Mae'n hanfodol bwysig peidio ag anghofio'r deilliannau y mae pobl hŷn yn awyddus i'w gweld ac yn disgwyl eu gweld. Yn fy marn i, er gwaethaf yr awydd i beidio â gosod gormod ar wyneb y Bil, mae gormod o'r bwriad yn cael ei adael ar hyn o bryd ar gyfer rheoliadau. Gallai hynny arwain at ddeddfwriaeth sy'n addas i'r system yn hytrach na'r hyn y mae ar unigolion ei angen a'r hyn y mae gan unigolion hawl i'w gael. Mae'n hanfodol bod hyn yn parhau'n Bil ynglŷn â phobl.

Fel llais annibynnol pobl hŷn yng Nghymru, fy niddordeb i fydd gweld sut mae bwriad y Bil yn cael ei droi'n realiti i bobl hŷn. Mae nifer o feysydd arwyddocaol wedi'u nodi yn fy ymateb a byddaf yn sylwi'n fanwl ar sut mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith. Byddaf hefyd yn dilyn cynnydd yr is-ddeddfwriaeth wrth i honno gael ei datblygu.

Rwy'n edrych ymlaen at roi rhagor o dystiolaeth i'r Pwyllgor i helpu'r Bil i symud drwy'r broses graffu fanwl.

Yn gywir,

Sarah Rochira

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

C.C. Helen Finlayson, Clerc y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Atodiad A - Adborth pobl hŷn, aelodau teuluoedd a rapporteurs gofal cymdeithasol y Comisiynydd

1. **Mae'n anodd iawn pwyso a mesur ansawdd y gofal a'r cymorth sy'n cael eu rhoi neu eu cynllunio am fod yna ddiffyg gwybodaeth ystyrlon, hwylus a dealladwy. Yn aml mae'n teimlo fel palu drwy doreth o adroddiadau gwahanol sy'n gallu bod yn annelwig ac yn anghyson. Mae hynny'n ei gwneud yn anodd i unigolion wneud penderfyniadau sy'n briodol iddyn nhw a chodi pryderon a chwynion.**

   "Chawson ni ddim help, dim ond dweud wrthon ni am ddod o hyd i gartre gofal"

   "Y penderfyniad mwya anodd dwi wedi'i wneud erioed (a'r mwya annifyr i'r ddau ohonon ni) yn fy mywyd".

   "Tase rhywun wedi dweud wrtha i sut beth oedd cartre gofal da, efallai y byddai hynny wedi fy stopio i rhag rhoi Mam mewn cartre lle roedd y staff yn rhoi mwy o sylw i'w cyfarfodydd staff nag ar sgwrs i ysgogi'r preswylwyr effro neu eu trin nhw â pharch. Dwi (neu mae Mam) wedi dysgu'r ffordd galed bod amgylchedd gwesty 5* ddim yr un fath yn aml ag amgylchedd gofal 5*".

   "Roeddwn i'n synnu ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth ystyrlon a hwylus. Roedd yna lawer o wybodaeth ymarferol, hynny yw nifer y gwelyau, ond mae'n siom cyn lleied o ddangosyddion sydd yna ynglŷn ag ansawdd gofal neu ansawdd bywyd yn y cartref gofal."

2. **Dydy camau ddim yn cael eu cymryd yn ddigon cyflym i gywiro gofal gwael. Mae gofal gwael yn cael ei oddef a does neb fel pe bai'n atebol pan fydd pethau'n mynd o chwith.**

   "Cafodd dannedd fy mam eu gadael i bydru yn ei cheg."

   "I mi, mae hi'n saff ond bywyd trist sy ganddi. O leia dydy hi ddim yn cael ei cham-drin."

"Wrth ymweld yn y pnawniau roeddwn i'n aml yn gorfod gofyn i'r staff newid pad fy mam am ei fod yn gollwng. Mae'n anodd ei symud hi o'i stafell i lawr grisiau ac felly doedd ei phad hi ddim yn cael ei newid cyn ei chinio na hyd yn oed yn union wedyn. O ganlyniad roedd hi bob amser yn teimlo embaras a chywilydd ac yn teimlo'n annifyr."

"Rŷch chi'n ddiymadferth."

"Rydyn ni am wneud yn siŵr fod pobl yn atebol, ond talcen caled yw hi o ran cael cyfiawnder a baich trwm i'w gario."

"Fe sgrifennes i dri llythyr gwahanol am ddigwyddiadau gwahanol a dwi erioed wedi bod yn fodlon ar y canlyniadau"

3. Does gan y staff mo'r sgiliau i ateb anghenion pobl nac i weld yr unigolyn. Yn rhy aml mae pwysigrwydd sut mae pethau'n cael eu gwneud yn cael ei anghofio. Rwyf wedi bod yn glir drwyddi draw yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal,[3] ynglŷn â phwysigrwydd gweithlu gofal cymdeithasol proffesiynol ac uchel ei gymhellion

"Rwy'n teimlo eu bod nhw'n siarad i lawr â'n tad-cu. Dwi'n eitha siŵr ei fod e'n dal "yno" er nad yw e'n gallu siarad. Mae e'n ddyn deallus ac fe hoffwn ei weld e'n cael ei drin fel dyn deallus."

"Cystal â'i staff, dyna i gyd yw cartref gofal"

"Doedden nhw ddim wedi cael eu hyfforddi. Fe ofynnes i a'r unig hyfforddiant roedden nhw wedi'i gael oedd iechyd a diogelwch a thrafod â'r dwylo, doedd ganddyn nhw ddim syniad sut i ateb anghenion preswylydd, yn enwedig o ran dementia."

"Mae'n amlwg bod y mwyafrif o'r rhai sy'n gweithio mewn cartrefi gofal yn gwirioneddol awyddus i wneud gwaith ystyrlon a rhoi ansawdd bywyd da i'r bobl y maen nhw'n gweithio gyda nhw – mae gan lawer ohonyn nhw adenydd wedi'u cuddio ar eu cefnau. Y broblem yw nad

[3] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Lle i'w Alw'n Gartref? Adolygiad o Ansawdd Bywyd a Gofal Pobl Hŷn sy'n Byw mewn Cartrefi Gofal Preswyl, 2014

ydyn nhw’n cael eu cefnogi yn aml yn yr amgylchedd y maen nhw’n gweithio ynddo a does yna ddim hyfforddiant priodol fel norm”.

Atodiad B – Diffiniad o 'Ansawdd Bywyd' a'r peuoedd a ddylai gael eu defnyddio mewn perthynas ag 'Ansawdd Bywyd'

- Mae pobl hŷn yn dweud wrtha i fod i'w bywydau nhw werth, ystyr a phwrpas pan fyddan nhw:

    - yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu clywed, yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu;
    - yn gallu cael yr help maen nhw ei angen, pan mae arnyn nhw ei angen, yn y modd y mae ei eisiau;
    - yn byw mewn man sy'n gweddu iddyn nhw ac i'w bywydau;
    - yn gallu gwneud y pethau sy'n cyfrif iddyn nhw.

- Mae Angen Gweithredu 6.1 yn yr Adolygiad o Gartrefi Gofal yn amlinellu'r peuoedd a ganlyn a ddylai gael eu defnyddio o ran ansawdd bywyd.

Ar hyn o bryd mae yna ffocws daearyddol anghyson ac amrywiol ar ansawdd bywyd ym maes comisiynu, ac yn rhy aml mae'n cael ei ystyried fel proses ffwythiannol seiliedig ar dasg. Er bod camau'n cael eu cymryd ar lefel leol yng Nghymru er mwyn rhoi mwy o gydnabyddiaeth i ansawdd bywyd, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol newydd, nid yw hyn hyd yma wedi arwain at ddull cyson a systematig o gomisiynu, rheoleiddio ac archwilio gofal sydd ag ansawdd bywyd yn greiddiol iddo ac a adlewyrchir yn y ffordd y mae comisiynu, rheoleiddio ac archwilio yn cael ei weithredu.

Mae'r gofynion a roddir ar ddarparwyr yn anghyson ac yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, mewn perthynas â safonau ac adrodd yn ôl, yn ogystal â dull anghyson o gydweithio, rhannu gwybodaeth a defnyddio gwybodaeth er mwyn gwerthuso ansawdd bywyd a gofal yn well.

Mae Angen Gweithredu 6.1 yn dweud:

Datblygu un fframwaith canlyniadau o ran ansawdd bywyd a gofal, a manyleb safonol, ar gyfer ei ddefnyddio gan yr holl gyrff sy'n ymwneud â rheoleiddio, darparu a chomisiynu, ac archwilio cartrefi gofal, a dylid ei ffrydio er mwyn iddo fod yn safon ddiffiniol o fewn y Ddeddf Reoleiddio ac Archwilio yn y dyfodol. Mae'n rhaid iddo gynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

1. *Annibyniaeth a hunanreolaeth*
2. *Rheolaeth ar fywyd bob dydd*
3. *Hawliau, perthnasoedd a rhyngweithio positif*
4. *Uchelgeisiau (cyflawni, cynnal, dysgu a gwella sgiliau)*
5. *Iechyd corfforol a lles emosiynol (cynnal a gwella)*
6. *Diogelwch a gwarchod (rhyddid rhag gwahaniaethu ac aflonyddu)*
7. *Urddas a pharch*
8. *Amddiffyniad rhag cam-drin ariannol*
9. *Derbyn gwasanaethau o safon uchel*

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Ymateb gan Gomisiynydd

Pobl Hŷn Cymru

i

ymgynghoriad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar

y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Ebrill 2015

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch yr ymateb hwn cysylltwch â:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru,
Adeiladau Cambrian,
Sgwâr Mount Stuart,
Caerdydd, CF10 5FL
[redacted]

Y Comisiynydd

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru, gan sefyll i fyny a siarad ar eu rhan. Mae'n gweithio i sicrhau bod y rheini sy'n agored i niwed ac mewn perygl yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Yr hyn mae pobl hŷn yn ei ddweud sydd fwyaf pwysig iddyn nhw sy'n llywio gwaith y Comisiynydd ac mae eu llais wrth galon popeth mae hi'n ei wneud. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo - nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:

- yn hybu ymwybyddiaeth o hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- yn herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.
- yn hybu'r arferion gorau yn y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin yng Nghymru.
- yn adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Mae'n ddyletswydd statudol ar Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, fel y mae wedi'i nodi yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007, i adolygu'n barhaus pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r gyfraith sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru. Fel yr amlinellir yn ei Fframwaith Gweithredu 2013-17, mae gan y Comisiynydd ddiddordeb eang mewn ansawdd gofal cymdeithasol ac effaith hyn ar fywydau pobl hŷn.

Mae rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yn bwysig i bobl hŷn, ac mae ganddo effaith amlwg ar eu profiadau o'r 'system' ac ar ansawdd eu bywydau. Er hynny, nid yn y cyd-destun hwn y maen nhw'n siarad am hyn. Mae ymdriniaeth y Comisiynydd o'r Bil Rheoleiddio ac Adolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn delio â'r pryderon a fynegwyd gan bobl hŷn a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau, fel yr amlinellir yn ei llythyr atodol.

Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd yn cymryd diddordeb neilltuol mewn cartrefi gofal yn dilyn ei Hadolygiad cyfreithiol o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Oherwydd pwysigrwydd y fframwaith rheoleiddio ac arolygu sydd ynghlwm â gofal cymdeithasol, a'r angen i godi pryderon pobl hŷn ac a ydy'r Bil yn darparu'n ddigonol i fynd i'r afael â nhw, mae'r Comisiynydd yn cyflwyno'r dystiolaeth yma er mwyn cyflawni'r swyddogaeth yma.

Crynodeb Gweithredol/Cwestiynau gan y Pwyllgor

1. **A ydych yn credu y bydd y Bil, fel y'i drafftiwyd, yn cyflawni'r nodau (sicrhau llesiant dinasyddion a gwella ansawdd gofal a chymorth yng Nghymru) sydd i'w gweld yn adran 3 (paragraff 3.15) o'r Memorandwm Esboniadol? A oes angen deddfwriaeth i gyflawni'r nodau hyn?**

Er bod llawer i'w groesawu yn y Bil, rhaid trosi ei fwriad yn ymarfer fel bod ganddo effaith gadarnhaol ar bobl hŷn. Mae'r Comisiynydd o'r farn nad ydy'r Bil yn ei ddrafft cyfredol yn cysylltu'n ddigonol â deilliannau clir fyddai'n berthnasol i bobl hŷn ac eithrio mewn ystyr generig ehangach e.e. bod yn fwy agored a thryloyw. Mae angen rhagor o fanylion er mwyn gallu

gwneud asesiad ac er mwyn i'r Comisiynydd allu darparu unrhyw sicrwydd gwirioneddol mewn perthynas â'r cwestiwn yma.

Gweler yr ymateb manwl sy'n rhoi rhagor o wybodaeth ar farn y Comisiynydd ynghylch a ydy adrannau penodol o'r Bil arfaethedig yn cyflawni'r nodau a ddatganwyd ai peidio.

2. A oes unrhyw rwystrau posibl a allai ei gwneud yn anodd rhoi darpariaethau'r Bil ar waith ac, os felly, beth ydynt ac a yw'r Bil yn eu hystyried yn ddigonol?

Mae'r Bil arfaethedig yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ofal cymdeithasol ac ychydig ydy'r integreiddio â rheoleiddio ac arolygu iechyd. Does dim dyletswydd ar fyrddau iechyd i sicrhau ansawdd deilliannau gofal iechyd mewn achosion gofal cymhleth ac mae'r Comisiynydd o'r farn bod hyn yn hepgoriad mawr yn y Bil ac y bydd yn cyfyngu ar effaith y Bil yn fawr iawn.

Mae diffyg aseswyr lleyg hefyd yn y broses arolygu yn golygu na chaiff lleisiau pobl eu clywed, rhywbeth a fydd nid yn unig yn gwanhau prosesau arolygu ond hefyd yn tanseilio bwriad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

3. A ydych yn credu bod unrhyw broblemau'n ymwneud â chydraddoldeb yn y darpariaethau presennol yn y Bil ar gyfer amddiffyn grwpiau gwahanol sy'n defnyddio gwasanaethau?

Mae'r Comisiynydd o'r farn bod methiant y Bil i ymestyn cofrestru'r gweithlu i staff gofal cartref a staff gofal preswyl yn gwahaniaethu rhwng pobl hŷn a grwpiau hyglwyf eraill. Mae cofrestru ar hyn o bryd yn gymwys i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant, a dydy'r Comisiynydd ddim yn gweld rheswm dilys pam na ddylid defnyddio cofrestru hefyd i amddiffyn pobl hŷn hyglwyf.

4. A ydych yn credu bod unrhyw faterion o bwys wedi'u hepgor o'r Bil neu a oes unrhyw elfennau rydych yn credu y dylid eu cryfhau?

Er bod y Comisiynydd yn croesawu llawer o'r Bil, mae sawl maes y mae angen ei gryfhau:

- Mae'r diffiniad o 'ofal' yn canolbwyntio'n ormodol ar weithgareddau corfforol
- Dylid ymestyn y trosolwg o gynaliadwyedd darparwyr
- Rhaid cael cynllun gweithredu i nodi sut y bydd yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Genedlaethol yn cael ei ddatblygu
- Rhaid adlewyrchu lleisiau defnyddwyr gwasanaethau yn y datganiadau blynyddol gan ddarparwyr gwasanaethau ac mewn adroddiadau blynyddol gan awdurdodau lleol ar eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol
- Rhaid i aseswyr lleyg fod yn rhan o'r broses arolygu
- Rhaid i gyrff cyhoeddus fod yn atebol am arferion comisiynu gwael
- Rhaid i hyfforddiant ar y Cod Ymarfer ar y safonau a ddisgwylir gan yr holl staff fod yn orfodol

Mae'r Comisiynydd o'r farn hefyd fod yna nifer o hepgoriadau o'r Bil:

- Dull integredig o weithredu rhwng iechyd a gofal cymdeithasol
- 'Addasrwydd i fod yn berchennog' gwasanaeth rheoleiddiedig
- Dydy cofrestru gweithlu ddim yn ymestyn i weithwyr gofal cartref a gofal preswyl

5. A ydych yn credu y bydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil?

Mae'r Comisiynydd o'r farn y bydd bwriad Llywodraeth Cymru i ddarparu dull integredig o weithredu rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei lesteirio trwy ddiffyg integreiddio rhwng y drefn arolygu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae angen cymryd y newidiadau i strwythur llywodraeth leol yng Nghymru a datblygiad deddfwriaeth arall, fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ystyriaeth er mwyn lleddfu unrhyw ddeilliannau anfwriadol wrth gyflawni bwriad y Bil.

6. Beth yw eich barn am y darpariaethau yn rhan 1 o'r Bil ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol? Er enghraifft,

mabwysiadu model rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau, ymgysylltu â'r cyhoedd, a phwerau i gyflwyno system sgorio fel rhan o'r drefn arolygu ac i godi ffioedd.

Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r bwriad i ddarparu gwell gwybodaeth trwy'r ddyletswydd ar ddarparwyr i gyflwyno datganiad blynyddol. Mae angen cysylltu'r datganiadau blynyddol yn glir gyda'r deilliannau llesiant sydd yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol a hefyd adlewyrchu Anghenion Gweithredu'r Comisiynydd a gyhoeddwyd fel rhan o'i hadroddiad ar yr Adolygiad o Gartrefi Gofal, Lle i'w Alw'n Gartref?[1]

Mae'r Comisiynydd o'r farn y dylai'r Bil nodi beth sy'n rhaid ei gynnwys yn y datganiadau blynyddol ac na ddylid gadael hyn yn unig i'r rheoliadau a fydd yn ategu'r Bil. Dylid cyhoeddi'r adroddiadau blynyddol hefyd o fewn 1 mis ar ôl yr adroddiad arolygu a rhaid i'r rheoleiddiwr ddarparu barn ar gywirdeb yr adroddiad. Mae'r Comisiynydd yn bryderus hefyd nad ydy'r Bil ar hyn o bryd yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at yr angen i gynnwys barn y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn yr adroddiad blynyddol.

Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r pŵer yn y Bil i gyflwyno arolygu graddau ansawdd mewn arolygiad gan y bydd hyn yn gymorth i wella natur agored a thryloyw ac yn galluogi pobl i wneud dewisiadau gwybodus am y gofal a'r cymorth y maen nhw'n eu derbyn. Ond rhaid i raddfeydd adlewyrchu dangosyddion llesiant ac ansawdd gwasanaeth a rhaid diffinio'r rhain ac adrodd arnyn nhw mewn modd sy'n adlewyrchu'r materion sy'n bwysig i bobl hŷn.

7. **Beth yw eich barn am y darpariaethau yn rhan 1 o'r Bil ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol? Er enghraifft, ystyried y canlyniadau a gaiff defnyddwyr gwasanaethau wrth adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, cynyddu cyfranogiad y cyhoedd, a gosod dyletswydd newydd ar wasanaethau gofal cymdeithasol i baratoi adroddiadau ar y farchnad leol.**

[1] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Lle i'w Alw'n Gartref? Adolygiad o Ansawdd Bywyd a Gofal Pobl Hyn sy'n Byw mewn Cartrefi Gofal, 2014

Mae’n hanfodol sicrhau mewn unrhyw adolygiad o wasanaethau cymdeithasol mai canfyddiadau’r defnyddwyr gwasanaethau am y gofal a’r cymorth a gawson nhw sy’n cael eu dal ac nid canfyddiad ynglŷn â sicrwydd ansawdd y system.

Rhaid i’r rheoliadau sy’n sail i’r wybodaeth yn adroddiadau blynyddol yr awdurdodau lleol a’r rheoliadau mewn perthynas ag adolygu ac ymchwilio i brosesau arolygu’r awdurdodau lleol fod yn destun y weithdrefn uwchgadarnhaol er mwyn sicrhau gwaith craffu priodol.

Rhaid i’r rheoliadau sy’n pennu cynnwys yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol hefyd fod yn destun y weithdrefn uwchgadarnhaol oherwydd bydd angen iddyn nhw fod yn gydnaws â’r rheoliadau sy’n nodi cynnwys yr adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Genedlaethol ac felly rhaid iddyn nhw fod yn destun craffu priodol.

8. Beth yw eich barn ynghylch y darpariaethau yn rhan 1 o'r Bil ar gyfer datblygu system i oruchwylio’r farchnad yn y sector gofal cymdeithasol?

Mae’r Comisiynydd yn croesawu’r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu cynaliadwyedd ariannol darparwyr mawr. Ond mae’r Comisiynydd o’r farn y dylid ymestyn hyn i gynnwys, o leiaf, y darparwyr hynny sy’n darparu gwasanaethau mewn ardaloedd lle mae dadansoddiad o’r farchnad yn dangos nad oes darpariaeth amgen os byddan nhw’n mynd yn anghynaliadwy.

Mae’r Comisiynydd yn croesawu’r ddyletswydd i gyflwyno Asesiad o Sefydlogrwydd y Farchnad Genedlaethol a rhaid i’r rheoliadau sy’n pennu cynnwys yr adroddiad yma adlewyrchu’r Anghenion Gweithredu a amlinellir yn ei Hadolygiad o Gartrefi Gofal.

9. Beth yw eich barn ynghylch y darpariaethau yn rhan 3 o'r Bil i newid enw a chyfansoddiad Cyngor Gofal Cymru gan roi’r enw Gofal Cymdeithasol Cymru arno ac ehangu ei gylch gwaith?

Mae’r Comisiynydd yn croesawu’r estyniad arfaethedig ar gylch gwaith y rheoleiddiwr gweithlu. Mae hyn yn gyfle i yrru trawsnewidiad a gwella arferion gofal cymdeithasol i bob ymarferwr ac mae’r Comisiynydd yn disgwyl i rôl Gofal Cymdeithasol Cymru mewn darparu cyngor a chymorth adlewyrchu Angen Gweithredu 5.6 o’i Hadolygiad o Gartrefi Gofal sy’n ymwneud â chreu gwasanaeth gwella cenedlaethol.

10. Beth yw eich barn ynglŷn â’r darpariaethau yn rhannau 4-8 o'r Bil ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu? Er enghraifft, y cynigion i beidio ag ehangu’r broses gofrestru i gynnwys categorïau newydd o staff, i gael gwared ar gofrestru gwirfoddol ac i gyflwyno gorchmynion gwahardd.

Mae angen cydraddoldeb wrth gofrestru gweithlu ar draws yr holl sectorau sy’n gweithio gyda phobl hyglwyf. Mae’r Comisiynydd o’r farn y dylid ymestyn cofrestru gweithlu gofal cymdeithasol i weithwyr gofal cartref a gofal preswyl. Mae angen cael Cod Ymarfer cwbl orfodadwy hefyd ar y safonau a ddisgwylir oddi wrth yr holl weithwyr gofal cymdeithasol ynghyd â hyfforddiant gorfodol ar y Cod i’r holl staff.

11. Beth yw eich barn ar y darpariaethau yn rhan 9 o'r Bil i gyrff rheoleiddio gydweithredu a chydweithio ?

Fel y nodwyd yn Adolygiad y Comisiynydd o Gartrefi Gofal mae’n gwbl hanfodol bod cyrff yn gweithio gyda’i gilydd i ddarparu deilliannau ansawdd bywyd i bobl hŷn a sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn rhag niwed.

12. Yn eich barn chi, a yw’r Bil yn cynnig cydbwysedd rhesymol rhwng yr hyn sydd wedi’i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn y bydd is-ddeddfwriaeth a chanllawiau’n ymdrin â nhw?

Mae’r Comisiynydd o’r farn bod gormod o fwriad y Bil ar hyn o bryd yn cael ei adael i reoliadau. Dydy rheoliadau ddim yn destun gwaith i graffu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i’r un graddau ac fe allai hynny arwain at ddeddfwriaeth sy’n gweddu i’r system yn hytrach nag i’r hyn y mae unigolion ei angen a’r hyn y mae ganddyn nhw hawl iddo.

Hefyd mae'n rhaid i'r mewnosodiadau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol fod yn destun y weithdrefn uwchgadarnhaol.

13. Beth yw eich barn chi am oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn rhannau 6 a 7 o'r Memorandwm Esboniadol?

Fel yr amlinellir gan ei Hangen Gweithredu 6.3 yn yr Adolygiad o Gartrefi Gofal, mae'r Comisiynydd yn awyddus i'r Asesiad Effaith mewn perthynas â chynyddu cyfranogiad dinasyddion beidio â digwydd ar draul defnyddio aseswyr lleyg yn y broses arolygu ac yn bryderus nad oes cyfeiriad at rôl CICau yn hyn. Er ei bod wrth gwrs yn gywir gwerthuso goblygiadau ariannol deddfwriaeth mewn modd priodol, mae'n bwysig peidio ag anghofio cost gofal gwael i'r unigolyn, i gomisiynwyr ac i enw da cyrff cyhoeddus.

14. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu cynnig ynglŷn ag adrannau penodol o'r Bil?

Gweler yr ymateb manwl.

Dadansoddiad o Adrannau'r Bil

Diffiniad o Ofal Mae'r Comisiynydd yn bryderus bod y diffiniad o 'gofal' ar wyneb y Bil yn canolbwyntio'n ormodol ar y gweithgareddau corfforol sy'n gysylltiedig â darparu gofal. Dydy gofal da ddim yn unig yn golygu teimlo'n ddiogel neu ddiwallu anghenion corfforol sylfaenol, er mor hanfodol ydy'r rhain. Mae hefyd yn golygu cael yr ansawdd bywyd gorau ym mha ffordd bynnag y mae person yn diffinio hyn. O fewn y system gyfredol does dim dull ffurfiol o adnabod nac o atgyfnerthu gwerthoedd	**Adran 3 – Termau allweddol eraill**

hanfodol fel trugaredd, cyfeillgarwch a charedigrwydd, hunan benderfyniad, dewis a rheolaeth. Mae'r gwerthoedd yma yn allweddol i ansawdd bywyd a rhaid eu gosod wrth galon yr hyn sy'n cael ei ddiffinio fel 'gofal' oherwydd y byddan nhw yn sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu cefnogi fel unigolion yn hytrach nac fel grŵp unffurf, ac yn herio'r dull amhersonol a gwrthrychlyd a geir mewn gofal sy'n seiliedig ar dasgau sydd nid yn unig yn dadrymuso unigolion ond sydd hefyd yn gallu arwain yn rhy hawdd at ofal diurddas, esgeulustod emosiynol a chamdriniaeth.

Ymagwedd integredig at reoleiddio ac arolygu

Dim yn y Bil ar hyn o bryd

Yn Adolygiad y Comisiynydd o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru, roedd yn amlwg bod llawer o bobl hŷn yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn lleoliadau preswyl a lleoliadau nyrsio a bod y ffiniau yn aml yn aneglur o safbwynt y defnyddwyr gwasanaethau a'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Dyma fwlch mawr yn y Bil. Darganfu'r Adolygiad fod anghysonderau a bylchau yn y systemau iechyd a gofal cymdeithasol, yn ôl profiad pobl hŷn o'r gwasanaethau a sut y mae'r gwasanaethau'n cael eu monitro – fel arolygu a rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd mewn lleoliad cartref gofal. Er enghraifft, gwneir tybiaethau am alluoedd nyrsys mewn cartrefi gofal sy'n atal byrddau iechyd rhag bod yn rhagweithiol i sicrhau bod gan bobl fynediad i nyrsys sydd â sgiliau arbenigol h.y. nyrsys diabetig yn ogystal â gofal sylfaenol e.e. gwasanaethau deintyddol. Heb oruchwyliaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gall y materion hyn barhau i effeithio ar ansawdd bywydau pobl hŷn oherwydd diffyg sicrwydd annibynnol o safbwynt gofal iechyd.

Rhaid mynd i'r afael â'r mater yma a rhaid i'r Bil osod dyletswydd ar AGIC ac AGGCC i gyflawni a chyhoeddi arolygiadau ar y cyd. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i siarad ag un llais ar lesiant yn gyffredinol ac ansawdd iechyd, gofal cymdeithasol a chymorth.

Mae hwn yn fwlch difrifol yn y Bil ac yn bwnc a nodwyd yn Adolygiad y Comisiynydd o Gartrefi Gofal a amlinellir gan Angen Gweithredu 6.5. Ar hyn o bryd dydy AGIC ddim yn arolygu safon y ddarpariaeth gofal iechyd mewn cartrefi gofal oherwydd nad yw o fewn eu cylch gwaith ac mae hyn yn golygu nad oes yna waith craffu priodol ac effeithiol ynglŷn â'r ddarpariaeth gofal iechyd mewn cartrefi gofal nyrsio. Mae'r Comisiynydd o'r farn mai AGGCC sydd yn y sefyllfa orau i fod yn arolygydd arweiniol mewn perthynas â chartrefi nyrsio o gofio pwysigrwydd ansawdd bywyd.

Sefydlogrwydd y Farchnad

Adrannau 58-62 – Goruchwylio'r Farchnad (Rhan1, Pennod 7)

Pan fo darparwyr mawr yn methu, mae effaith hynny yn ddramatig ar unigolion. Ond, mae yna effaith hefyd ar y sector statudol allai ar fyr rybudd orfod darganfod gofal a chymorth amgen i nifer sylweddol o bobl hyglwyf iawn. Pan fo cartref gofal bach neu unigol yn cau, efallai nad ydy'r anawsterau sy'n wynebu'r corff statudol mor sylweddol, yn enwedig mewn ardaloedd llai gwledig, ond gall yr effaith ar yr unigolyn yn y cartref fod yr un mor ddifäol. Mae hyn yn gallu bod yn wir hefyd pan geir newid mewn darparydd cartref gofal, gan effeithio ar berthynas agos y staff sy'n darparu gofal clos.

adran 58(1) Rheoliadau – meini prawf i benderfynu a ydy adran 6 yn gymwys

Dylai'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol amddiffyn yr unigolyn tra hefyd yn sicrhau atebolrwydd y system. Dylai 'diwydrwydd dyladwy' felly fod yn gymwys i

adran 58(4) Rheoliadau – ymestyn

bob darparydd mawr ac, er mwyn rheoli risg, i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau mewn ardaloedd lle mae dadansoddiad o'r farchnad yn dangos nad oes darpariaeth amgen ar gael. Mae angen i'r rheoliadau o dan Adran 58 fod yn gymwys i'r holl ddarparwyr gwasanaethau gofal a chymorth.

Hefyd dylai'r rheoliadau o dan Adran 60 bennu gwybodaeth mewn perthynas ag 'addasrwydd person i fod yn berchennog' gwasanaeth gofal a chymorth, gan ganiatáu i gais gael ei wneud am wybodaeth, megis a ydy'r perchennog wedi profi methiant yn y gorffennol o ran darpariaeth gwasanaethau gofal a chymorth yn ei berchnogaeth.

Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Genedlaethol

Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r ddyletswydd i gyhoeddi Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Genedlaethol. Ond, mae'n hanfodol i'r adroddiad wneud argymhellion ynghylch sut y caiff y sylfaen neu'r farchnad dewisol o ddarparwyr eu cyflwyno a dylai fod yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno eu cynllun gweithredu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch pa bryd a sut y byddan nhw'n diwallu'r argymhellion.

Rhaid i'r rheoliadau ategol a fydd yn nodi cynnwys yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Genedlaethol hefyd adlewyrchu Anghenion Gweithredu 5.1, 5.8,7.1 a 7.2, fel y nodir yn Adolygiad y Comisiynydd o Gartrefi Gofal, fel bod yr adroddiad yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

a. *Argaeledd Rheolwr Cartrefi Gofal medrus a chymwys, gan gynnwys effaith lefelau lleoedd gwag ar ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn*
b. *Rhagamcan demograffig cenedlaethol o angen, gan*

defnydd adran 60

adran 60(6) Rheoliadau – gwybodaeth asesu cynaliadwyedd ariannol

adran 62(3) Rheoliadau – adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Genedlaethol

gynnwys tueddiadau a ragwelir yn y math o ddarpariaeth sydd ei angen, a newidiadau i hynny, o ganlyniad i ddwyster a dibyniaeth gynyddol

c. *Datganiad clir o'r math dewisol o sylfaen/marchnad darparydd*
d. *Dadansoddiad cenedlaethol o'r rhwystrau i fynd i mewn i'r farchnad*
e. *Datganiad clir o fuddsoddiad i dyfu mentrau cymdeithasol a sectorau gofal cymdeithasol cydweithredol yn enwedig mewn ardaloedd gyda sylfaen darparwyr isel*
f. *Cynllun gweithredu clir i ddarparu'r sylfaen/marchnad darparydd dewisol*
g. *Y lefel gyfredol ac yn y dyfodol o nyrsio angenrheidiol yn y sector gofal preswyl a nyrsio, gan gynnwys gofal i bobl hŷn yn byw gyda phroblemau iechyd meddwl, dirywiad gwybyddol a dementia.*

Hefyd rhaid i'r rheoliadau sy'n pennu cynnwys yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol fod yn destun y weithdrefn uwchgadarnhaol gan y bydd angen iddyn nhw fod yn gydnaws â'r rheoliadau sy'n nodi'r cynnwys ar gyfer yr adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Genedlaethol ac felly yn destun gwaith craffu priodol.

Datganiad Blynyddol

Adran 8 – Datganiad Blynyddol (Rhan 1, Pennod 2)

Mae'r Comisiynydd yn croesawu'n gryf y cynnig bod rhaid i bob darparydd gyflwyno datganiad blynyddol i reoleiddiwr y gwasanaeth ac y caiff ei gyhoeddi gan y rheoleiddiwr ochr yn ochr â'i adroddiad ar yr arolygiad gwasanaeth. Mae'r Comisiynydd hefyd yn croesawu'n gryf y cynigion i'r adroddiadau yma gysylltu'n glir â deilliannau llesiant yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol.

adran 8 (2) Rheoliadau – gwybodaeth mewn

datganiad blynyddol

Ond, ni fydd hyn yn ddigonol oni bai:

1. Bod y rhain yn cael eu cyhoeddi o fewn 1 mis ar ôl cynnal yr arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchiad cywir o ansawdd y gofal a ddarperir;

2. Bod y rheoleiddiwr yn darparu barn ar gywirdeb yr adroddiad. Os na wneir hynny, ni fydd yn bosibl herio'r trosedd ditiadwy newydd o ddisgrifiadau ffug neu ddatganiadau ffug.

3. Ei bod yn angenrheidiol bod yr adroddiadau yma yn cynnwys gwybodaeth yn unol ag Anghenion Gweithredu 5.5, 6.2 a 6.20 o adolygiad statudol y Comisiynydd, Lle i'w Alw'n Gartref? sy'n cynnwys:
   a) Nifer yr hyrwyddwyr dementia[2]
   b) Sut mae adborth parhaus gan bobl hŷn wedi cael ei ddefnyddio i yrru gwelliant parhaus;
   c) Ansawdd bywyd pobl hŷn mewn perthynas â darpariaeth gofal a chymorth;
   d) Lefelau staff, trosiant, sgiliau, buddsoddiad mewn hyfforddiant a defnydd o staff asiantaeth; a,
   e) Nifer y cyfeiriadau POVA, cwynion a hysbysiadau gwella, gan gynnwys manylion llawn ar gamau gwella

4. Mae'r Datganiad Blynyddol yn berthnasol i'r defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r Comisiynydd yn bryderus nad oes unrhyw gyfeiriad yn y Bil bod rhaid cynnwys y defnyddwyr gwasanaethau wrth gynhyrchu'r adroddiadau yma na chwaith y dylid eu hysgrifennu mewn fformat hygyrch ac mewn iaith glir i'w darllen gan y cyhoedd. Rhaid profi datblygiad y fformat ar gyfer yr adroddiadau blynyddol gyda defnyddwyr cyfredol neu gyda phreswylwyr cartrefi gofal a'u teuluoedd.

[2] Diffinnir Hyrwyddwr Dementia yn Atodiad B

Mae'r Comisiynydd yn glir y dylai wyneb y Bil nodi beth sy'n **rhaid** ei gynnwys yn y Datganiadau Blynyddol, beth na **chaniateir** ei gynnwys, hyd yn oed ar ffurf amlinelliad, a'r ffordd y mae'n rhaid datblygu'r datganiadau yma. Rhaid i'r Datganiad Blynyddol fod yn berthnasol i'r defnyddwyr gwasanaethau yn unol a'r bwriad, a rhaid peidio felly â gadael yr egwyddor o ddarparu gwell gwybodaeth am ansawdd y gofal a ddarperir i reoliadau yn unig.

5. Mae'r deilliannau llesiant a ddatblygwyd yn berthnasol i bobl hŷn. Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r gofyniad arfaethedig bod rhaid i'r Datganiadau Blynyddol gyfeirio at y deilliannau llesiant. Mae'n glir fodd bynnag, ynghylch yr angen am gysondeb a bod rhaid i'r rhain fod yr un fath â'r deilliannau llesiant a amlinellir yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol,[3] fel y nodir yn yr Angen Gweithredu 6.1 o'i Hadolygiad o Gartrefi Gofal.

Mae'r Comisiynydd o'r farn bod rhaid i'r rheoliadau ar Ddatganiadau Blynyddol hefyd adlewyrchu Anghenion Gweithredu 5.5, 6.2 a 6.10 yn ei Hadolygiad o Gartrefi Gofal fel bod yr wybodaeth ganlynol yn y Datganiadau Blynyddol:

a. Nifer yr hyrwyddwyr dementia[4]
b. Sut mae adborth parhaus gan bobl hŷn wedi cael ei ddefnyddio i yrru gwelliant parhaus;
c. Ansawdd bywyd pobl hŷn mewn perthynas â darpariaeth gofal a chymorth;
d. Lefelau staff, trosiant, sgiliau, buddsoddiad mewn hyfforddiant a defnydd o staff asiantaeth; a,
e. Nifer y cyfeiriadau POVA, cwynion a hysbysiadau

[3] Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, 2014-15
[4] Diffinnir Hyrwyddwr Dementia yn Atodiad B

gwella, gan gynnwys manylion llawn ar gamau gwella

Dull o weithredu yn seiliedig ar ganlyniadau

Mae'r Comisiynydd yn gefnogwr cryf i'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol sy'n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae'n croesawu'r ffaith y bydd hyn yn gymwys i holl ddarparwyr gwasanaethau gofal a chymorth.

Mae'r Comisiynydd hefyd yn croesawu disodli Rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol i Wasanaethau Oedolion â rheoliadau mewn perthynas â llesiant ac arferion gweithrediadol. O ran cysondeb, dylai'r rheoliadau mewn perthynas â llesiant fod yr un fath, neu gyd-fynd yn agos â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol neu bydd y feirniadaeth gyfredol o ddulliau anghyson ymysg gwahanol asiantaethau yn parhau, er mwyn modd gwahanol.

O ran gofal preswyl, mae'r Comisiynydd yn disgwyl i'r ddwy set o reoliadau a'r Cod Cyfarwyddyd roi sylw i Angen Gweithredu 6.1 o'i Hadolygiad o Gartrefi Gofal sy'n datgan:
Datblygir fframwaith sengl deilliannau ansawdd bywyd a manyleb safonol, i'w defnyddio gan yr holl gyrff sy'n ymwneud â rheoleiddio, darparu a chomisiynu, ac arolygu cartrefi gofal a dylai lifo drwodd i ddod yn safon ddiffiniol yn y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu i'r dyfodol. Rhaid cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

1) *Annibyniaeth*
2) *Rheolaeth dros fywyd bob dydd*
3) *Hawliau, perthnasoedd a rhyngweithio positif*

Adran 26 – Rheoliadau ynghylch gwasanaethau rheoleiddiedig (Rhan 1, Pennod2)

adran 26(1) Rheoliadau – gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau (llesiant ac arferion gweithrediadol)

4) *Uchelgeisiau (cyflawni, cynnal, dysgu a gwella sgiliau)*
5) *Iechyd corfforol a llesiant emosiynol (cynnal a gwella)*
6) *Diogelwch a gwarchod (rhyddid rhag gwahaniaethu ac aflonyddwch)*
7) *Urddas a pharch*
8) *Amddiffyn rhag cam-drin ariannol*
9) *Derbyn gwasanaethau o ansawdd uchel*

Hefyd, mae'r Comisiynydd yn disgwyl, yn unol ag Anghenion Gweithredu 1.1 ac 1.3 o'i Hadolygiad o Gartrefi Gofal, y bydd y safonau hyn a'r codau canllaw gwasanaeth ategol yn cyfeirio'n benodol at y canlynol:

a) *Cyfranogiad llwyr y person hŷn er mwyn sicrhau bod ganddo lais effeithiol, gan gynnwys cefnogaeth eirioli pan fo angen hynny;*

b) *Sicrhau bod hanes personol, diddordebau cymdeithasol a diwylliannol, gwaith, cyflawniadau, hoffterau, anhoffterau a dyheadau'r unigolyn yn cael eu deall a'u hadlewyrchu yn ei fywyd yn y dyfodol. Mae'n rhaid i hyn gynnwys anghenion diwylliannol ac ieithyddol pob person hŷn, gan gynnwys pobl hŷn sy'n Lesbïaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol, Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a rhai sy'n arddel ffydd neu nad ydynt yn arddel ffydd;*

c) *Bodloni anghenion emosiynol pobl hŷn er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn annwyl i rywun, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn derbyn gofal.*

d) *Bodloni anghenion cyfathrebu pobl sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrau.*

e) *Anghenion siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf.;*

d) Cymryd camau gweithredol i annog cynlluniau cyfeillio i gefnogi a chynnal cyfeillgarwch sydd eisoes yn bodoli.

Comisiynu

Dim adran

Dydy'r Bil ddim yn cyfeirio'n benodol at swyddogaeth gomisiynu'r awdurdodau lleol. Mae hyn yn hepgoriad sylweddol o'r Bil gan fod comisiynu gofal cartref a gofal preswyl yng Nghymru ar hyn o bryd yn anghyson ac yn amrywiol o ran ei ffocws ar gydbwysedd rhwng cost ac ansawdd. Rhaid rhoi ansawdd gofal ac ansawdd bywyd y rhai sy'n derbyn gwasanaethau ar y blaen ym mhob penderfyniad comisiynu, a hynny wrth gomisiynu gofal preswyl a gofal cartref. Er bod y Comisiynydd yn cydnabod yr amgylchedd heriol y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu ynddo, ni ddylai cost fyth fod yn brif yrrwr y tu ôl i benderfyniadau comisiynu. Amlygwyd hyn fel problem neilltuol yn Adolygiad y Comisiynydd o Gartrefi Gofal, a hefyd yr effaith negyddol y mae comisiynu heb ffocws ar ddeilliannau ansawdd bywyd yn ei gael ar yr unigolyn.

Dylai'r Bil osod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd i gomisiynu yn erbyn deilliannau ansawdd bywyd, fel y nodir yn Angen Gweithredu 6.1 yr Adolygiad o Gartrefi Gofal, trwy'r peuoedd canlynol:

a) Annibyniaeth
b) Rheolaeth dros fywyd bob dydd
c) Hawliau, perthnasoedd a rhyngweithio positif
d) Uchelgeisiau (cyflawni, cynnal, dysgu a gwella sgiliau)
e) Iechyd corfforol a llesiant emosiynol (cynnal a gwella)
f) Diogelwch a gwarchod (rhyddid rhag gwahaniaethu ac aflonyddwch)
g) Urddas a pharch
h) Amddiffyn rhag cam-drin ariannol
i) Derbyn gwasanaethau o ansawdd uchel

Dylai'r Bil roi dyletswydd ar gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol, a'u cydweithwyr iechyd, i sicrhau bod comisiynu iechyd a gofal

benodol

cymdeithasol yn erbyn y fframwaith deilliannau sengl ansawdd bywyd a ddefnyddir gan bob corff sy'n ymwneud â rheoleiddio, comisiynu, arolygu darpariaeth gofal. Mae'r fframwaith yma yn cyd-fynd â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ond mae'n darparu'r manylion pellach angenrheidiol i atal methiannau yn y broses gomisiynu sydd dro ar ôl tro yn arwain at lefelau annerbyniol o ofal, gan gynnwys esgeulustod emosiynol a gofynion anghyson a chyferbyniol ar ddarparwyr gofal.

Bydd hyn yn sicrhau y bydd awdurdodau lleol sy'n comisiynu lleoedd i unigolion mewn cartrefi gofal yn nodi manylebau gwasanaeth ac yn sicrhau bod modd cyflenwi'r pecyn gofal o fewn eu strwythur ffioedd, a hefyd yn chwilio am sicrwydd yn barhaus bod person hŷn yn ddiogel, yn derbyn gofal da ac yn mwynhau bywyd o ansawdd da.

Arolygiadau gwasanaeth

Adrannau 31-35 – Gwybodaeth ac Arolygiadau (Rhan 1, Pennod 3)

Mae'r Comisiynydd yn cydnabod bod gan ddull o raddio ansawdd ei gyfyngiadau, yn enwedig lle mae gwelliannau'n digwydd. Ond, mae'n eiriolydd cryf dros yr agenda bod yn agored a thryloyw a phwysigrwydd gwybodaeth glir ac ystyrlon fel offeryn i helpu pobl i wneud penderfyniadau sy'n briodol i'w hanghenion ac i'w diogelu eu hunain.

Adran 39 – Ymgysylltu â'r cyhoedd (Rhan 1, Pennod 4)

Rhaid i'r graddau ansawdd a fabwysiedir adlewyrchu dangosyddion llesiant a dangosyddion ansawdd gwasanaeth a rhaid diffinio ac adrodd ar y rhain mewn modd sy'n adlewyrchu'r materion sy'n bwysig i bobl hŷn. Eto, o ran cysondeb mewn perthynas â gofal preswyl, dylai hyn gynnwys y materion a nodir yn Adolygiad y Comisiynydd o Gartrefi Gofal a nodir yn glir yn Angen

adran 32(3)

Gweithredu 1.1: *Dylid datblygu a gweithredu dull cenedlaethol o gynllunio gofal mewn cartrefi gofal o gwmpas Cymru. Mae'n rhaid i hyn gefnogi:*	Rheoliadau–arolygiadau gwasanaeth
• *Cyfranogiad llwyr y person hŷn er mwyn sicrhau bod ganddo lais effeithiol, gan gynnwys cefnogaeth eirioli pan fo angen hynny. Gall hyn gynnwys eiriolaeth annibynnol neu eiriolaeth o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol.*	adran 32(4) Cod – arolygiad gwasanaeth (y modd y cânt eu cyflawni)
• *Sicrhau bod hanes personol, diddordebau cymdeithasol a diwylliannol, gwaith, cyflawniadau, hoffterau, anhoffterau a dyheadau'r unigolyn yn cael eu deall a'u hadlewyrchu yn ei fywyd yn y dyfodol. Mae'n rhaid i hyn gynnwys anghenion diwylliannol ac ieithyddol pob person hŷn, gan gynnwys pobl hŷn sy'n Lesbïaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol, Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a rhai sy'n arddel ffydd neu nad ydynt yn arddel ffydd.*	adran 35(1) Rheoliadau – graddau arolygu
• *Cefnogaeth pontio ar ôl penderfynu symud i gartref gofal er mwyn sicrhau bod y broses o gynllunio gofal yn cychwyn cyn symud i gartref gofal.*	
• *Bodloni anghenion emosiynol pobl hŷn er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn annwyl i rywun, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn derbyn gofal.*	
• *Bodloni anghenion cyfathrebu pobl sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrau.*	
• *Anghenion siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf.*	
• *Hawliau i ofal iechyd ac asesu ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd ac atgyfeirio at y gwasanaethau hynny.*	
• *Hawliau'r unigolyn yn erbyn rheoli risg.* *Asesu amlddisgyblaethol (ar draws Byrddau Iechyd, Awdurdodau lleol ac yn cynnwys sefydliadau'r trydydd sector) ac asesu clinigol arbenigol.*	
Mae'r Comisiynydd yn bryderus nad ydy'r Bil yn cynnwys	

gofyniad ynghylch defnyddio arolygwyr lleyg yn y broses arolygu, wedi iddi nodi'n glir yn ei Hadolygiad o Gartrefi Gofal fod manteision gwneud hynny yn llawer mwy na'r gost sy'n gysylltiedig â'r system a'r gost i'r unigolyn o ran gofal gwael. O gofio bod aseswyr lleyg yn cael eu defnyddio mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig fel arbenigwyr yn ôl eu profiad, ac ymrwymiad Cynghorau Iechyd Cymuned i chwarae rôl weithgar mewn gwrando ar leisiau defnyddwyr gwasanaethau a sicrhau ansawdd gofal iechyd o safbwynt lleyg, mae'n siomedig bod hyn yn absennol o'r Bil. Mae'r Comisiynydd wedi amlinellu yn glir yn Angen Gweithredu 6.3 bod: *aseswyr lleyg yn cael eu defnyddio, ar sail barhaus, fel rhan ffurfiol a sylweddol o'r broses arolygu.*

Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r cynnig ynghylch Cod Ymarfer mewn perthynas ag arolygu fel egwyddor gyffredinol ochr yn ochr â gofynion ynghylch cymwysterau perthnasol ond mae'n gochel rhag eithrio'r rhai sydd â phrofiad sylweddol neu aseswyr lleyg. Rhaid i'r Cod Ymarfer nodi'n glir y materion y dylid canolbwyntio arnyn nhw, a ddylai fod yn gyson â'r rheoliadau mewn perthynas â llesiant, a safonau gofal a chymorth, ond hefyd galluogi sylwadau rhydd fel bod pobl yn gallu cyflwyno eu profiadau yn ystod y broses arolygu. Rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau gynnwys, yn enwedig i'r rhai y mae eu lleisiau'n wannaf, aelodau'r teulu, gofalwyr (di-dâl) ac eiriolwyr annibynnol (lle nad oes gan bobl rywun i siarad drostyn nhw). Rhaid i'r Cod Ymarfer nodi'n glir yr egwyddorion o wrando'n effeithiol a sicrhau bod anghenion pobl hŷn ar draws y nodweddion gwarchodedig yn cael eu clywed, gan gynnwys pobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu golled synhwyraidd.

Mae'r Comisiynydd o'r farn hefyd y dylai'r Cod Ymarfer osod gofyniad ar y broses arolygu i ofyn am farn y gweithlu gofal cymdeithasol. Hefyd dylai ffurfio barn ar

ansawdd y gofal a'r cymorth a llesiant cyffredinol pobl sy'n derbyn gofal gymryd i ystyriaeth farn y comisiynwyr er mwyn sicrhau bod yr adroddiad ar yr arolygiad y mae'r cyhoedd yn rhoi gwerth arno, wedi'i driongli'n bendant yn erbyn yr holl ffynonellau barn hysbys am y gofal a'r cymorth a ddarperir a'r effaith ar lesiant yr unigolyn.

Gwella Safonau (Gofal Cymdeithasol Cymru)

Mae'r Comisiynydd yn croesawu creu Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) ac ymestyn ei gylch gwaith. Roedd y dystiolaeth a dderbyniwyd fel rhan o'i Hadolygiad o Gartrefi Gofal yn awgrymu nad oes gan Gyngor Gofal Cymru mo'r pwerau ar hyn o bryd sydd eu hangen i yrru'r newid diwylliannol diwyro a systematig angenrheidiol i fod yn hyrwyddwr cryf dros ddatblygu a phroffesiynoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i rôl SCW o ddarparu cyngor a chymorth i ddarparwyr gofal a chymorth i gydymffurfio ag Angen Gweithredu 5.6 o'i Hadolygiad i Gartrefi Gofal a'r egwyddorion ynddo, sy'n cynnwys:

a) *Nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir a thorri hawliau dynol o bosibl*
b) *Defnyddir sgiliau ymarferwyr profiadol (fel Rheolwyr Cartrefi Gofal) i ddarparu cymorth dwys a thrawsnewidiol i godi safonau ansawdd bywyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol;*
c) *Datblygu amrediad o adnoddau a deunyddiau hyfforddi i gynorthwyo gwasanaethau gyda gwelliant.*

Er bod y Comisiynydd yn croesawu'r ddyletswydd ar SCW i ddarparu gwybodaeth ar ei waith ac i ymgysylltu

â'r cyhoedd, rhaid i wyneb y Bil fod yn glir bod rhaid i hyn fod yn ymgysylltu parhaus ac ystyrlon sy'n clywed lleisiau a phrofiadau pobl hŷn, gan gynnwys y rhai sy'n byw â dementia neu golled synhwyraidd, yn ogystal â lleisiau amrywiol y gweithlu gofal cymdeithasol. Amlinellir egwyddorion y Comisiynydd ynghylch arferion gorau gwaith ymgysylltu yn Atodiad A.

Er bod croeso i'r bwriad o greu corff sy'n gallu darparu cymorth ymarferol, heb adnoddau sylweddol caiff effaith hyn ei chyfyngu a bydd yn annigonol i ymestyn effaith arferion gorau a chywiro'r gofal gwael sy'n bodoli. Rhaid cofio hefyd fod yna gost i'r cronfeydd cyhoeddus ochr yn ochr ag effaith enfawr gofal gwael i unigolyn.

Mae'r Comisiynydd o'r farn y dylid cyllido'r Gwasanaethau Gwella Cenedlaethol fel yr amlinellir yn Angen Gweithredu 5.6, gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr gofal annibynnol wedi rhoi eu cefnogaeth i Wasanaeth Gwella Cenedlaethol. Bydd cyllid ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru a gwasanaeth gwella cenedlaethol i yrru safonau gofal i fyny yn sylfaenol i'w lwyddiant cyffredinol, a sicrhau nad ydy adnoddau'r timau comisiynu yn cael eu dargyfeirio yn ddiangen.

Mae'r ddarpariaeth yn y Bil i gyflwyno pwerau penodol i reoleiddwyr gydweithredu a chyd-arfer eu swyddogaethau i'w chroesawu. Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i gyfrinachedd fel nad ydy darparwyr yn cael eu hatal rhag hunan-gyfeirio, ond rhaid cydbwyso hyn â dyletswydd i adrodd lle mae problemau yn neilltuol o ddifrifol. Serch hynny, dylai fod dyletswydd glir ar gyrff cyhoeddus i rannu gwybodaeth ac i gyd-arfer eu swyddogaeth pan gaiff pryderon eu codi ynghylch diogelu. Dylai hyn godi ymwybyddiaeth o'r hyn a olygir wrth ofal gwael, gan sicrhau bod arfer gwael yn cael eu

herio a bod pawb wedi'u grymuso i adrodd ar hynny.

Ond, er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu trin ag urddas a pharch, ac er mwyn osgoi trosedd posibl yn erbyn hawliau dynol, mae'r Comisiynydd wedi'i gwneud yn ofynnol i AGGCC weithredu yn unol ag Angen Gweithredu 1.5 i ddatblygu a chyhoeddi rhestr benodol o 'ddigwyddiadau byth bythoedd' sy'n amlinellu'n glir arferion sydd rhaid rhoi terfyn arnyn nhw ar unwaith. Rhaid diffinio'r digwyddiadau 'byth bythoedd' yma yn y rheoliadau a dylai cyrff cyhoeddus eu defnyddio i nodi ac adrodd ar ofal gwael.

Cofrestru a Hyfforddi'r Gweithlu

Adran 79 – Y Gofrestr (Rhan 4)

Adran 83 – "wedi ei gymhwyso'n briodol" (Rhan 4)

Adran 111 – Codau ymarfer (Rhan 5)

Un mater allwedd ydy sut i sicrhau bod gan bobl sy'n gweithio yn y sector y sgiliau cywir, eu bod yn gwybod beth a ddisgwylir oddi wrthyn nhw a bod y rhai sy'n darparu gofal gwael yn cael eu hatal rhag gweithio yn y system.

Ar hyn o bryd dim ond mecanweithiau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr dros dro o'r UE a rheolwyr gwasanaethau cofrestredig sy'n bodoli ac nid yw hyn yn cynnwys niferoedd sylweddol o bobl, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn gofal preswyl a gofal cartref fel gofalwyr cyflogedig.

Er nad ydy gweithwyr efallai yn mynd i'r sectorau yma gyda'r bwriad o gam-drin, neu o ddarparu gofal gwael, mae'n bwysig cydnabod ei bod yn amlwg bod unigolion na ddylen nhw, oherwydd yr amgylchiadau y maen nhw'n eu cael eu hunain ynddyn nhw neu resymau eraill, fod yn gweithio yn y sector. Mae gan y Comisiynydd ddiddordeb yn y dull mwyaf effeithiol o sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn yn ddigonol trwy atal pobl rhag gweithio yn y sector os nad oes ganddyn nhw'r sgiliau neu'r

galluoedd cywir i ddarparu gofal o safon.

Mae pobl hŷn sy'n derbyn gofal a chymorth cymdeithasol mewn sefyllfa o fod yn hyglwyf o bosibl ac mae'n gyfrifoldeb ar y gymdeithas i sicrhau bod y lefel o ddiogelu ac amddiffyn yn adlewyrchu hyn. Dylai felly fod yn gyfartal â gofal plant mewn cartrefi gofal preswyl gan fod pobl hŷn sydd â phroblemau gofal cymhleth, dementia neu alluedd anwadal yr un mor ddibynnol ar y bobl sy'n gofalu amdanyn nhw i sicrhau bod eu hawliau dynol yn cael eu cynnal a'u bod yn gallu byw heb ofn. Mae yna dystiolaeth bod ein hofn ein hunain o heneiddio yn ein hatal rhag cydnabod hyn, ond ni ddylai agwedd o ragfarn ar sail oedran ac anghydraddoldeb fod yn safon yr ydym yn ei gosod mewn deddfwriaeth.

Dydy'r Bil fel y mae ar hyn o bryd ddim yn ymestyn cofrestru i grwpiau eraill o weithwyr mewn gofal cymdeithasol sydd wedi'u rheoleiddio. Y cyfan y mae'n ei wneud yw darparu ar gyfer estyniad posibl yn y dyfodol. Dydy hyn ddim yn ddigonol mewn perthynas â gofal cymdeithasol, gofal cartref a gofal preswyl.

Ar hyn o bryd does dim mecanwaith i sicrhau bod y rhai nad ydyn nhw'n ffit i weithio yn y gweithlu gofal cymdeithasol anrheoleiddiedig yn cael eu hatal rhag gweithio yn y sectorau hyn. Er cydnabod y gall fod yna oblygiadau ariannol drwy ymestyn cofrestru gweithlu a risg y gallai gofyniad i gofrestru olygu amser ychwanegol yn y broses recriwtio, mae cost gofal annerbyniol yn drech na hyn, o ran y gost i'r unigolyn a'r gost i'r cronfeydd cyhoeddus. Dylai ansawdd bywyd unigolion sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol gael ei roi o flaen rhwystrau logistaidd i newid y system bob amser.

O gofio'r gwaelodlin arbennig o wan o ran hyfforddi gofalwyr cyflogedig mewn cartrefi gofal, mae hyd yn oed yn

fwy pwysig na ddylai'r rhai sydd ddim yn ffit i weithio yn y sector gael gweithio yn y sector.

Mae'r Comisiynydd o'r farn bod rhaid mynd i'r afael â rheoleiddio'r gweithlu gofal preswyl a gofal cartref fel blaenoriaeth ar frys. Mae yna sawl enghraifft o gyflogaeth mewn sectorau eraill lle mae'r staff yn destun proses gofrestru, megis gofalwyr plant neu'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant diogelwch preifat (bownsers).

Mae'r Comisiynydd o'r farn nad ydy Cod Ymarfer ar y safonau a ddisgwylir oddi wrth yr holl weithwyr gofal cymdeithasol yn ddigonol. Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil a gomisiynodd ar Chwythu'r Chwiban yng Nghymru[5] yn nodi'n glir mai prin iawn y mae staff yn cyfeirio'n ôl at godau ymarfer ac o ganlyniad, dydy gofal gwael yn aml ddim yn cael ei herio. Hefyd, dydy'r Bil ddim yn darparu unrhyw wybodaeth am beth fyddai'n digwydd pe bai torri'r Cod Ymarfer hwn yn cael ei brofi, pa broses a fyddai'n cael ei defnyddio pe bai her o'r fath yn cael ei wneud a chanlyniadau trosedd difrifol (megis y cysylltiad ag atal person rhag gweithio yn y sector h.y. gorchmynion gwahardd).

gan hynny, mae'r Comisiynydd o'r farn mai ychydig yn unig o effaith a gaiff hyn, yn enwedig pan fo gofal gwael wedi bod yn digwydd am gyfnod o amser. Caiff hyn ei wanhau ymhellach gan y diffyg dyletswydd i roi gwybod am unrhyw drosed dyn erbyn Cod Ymarfer. Dydy hyn ddim yn golygu nad oes gan god ymarfer le mewn perthynas ag amlinellu'r hyn sy'n dderbyniol a'r hyn sy'n annerbyniol. Ond ynddo'i hun ni fydd yn lleihau gofal gwael.

Dylid alinio codau ymarfer yn agos â chodau ymddygiad ac mae'r Comisiynydd o'r farn mai rheoleiddio fyddai'r ffordd

[5]Chwythu'r Chwiban yng Nghymru – adroddiad gan Public Concern at Work i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Chwefror 2012

orau ymlaen (gweler yr adran ar reoliadau), ond os ydy gorchmynion gwahardd yn mynd i gael eu defnyddio yn hytrach na rheoleiddio mewn perthynas â gofal cartref a phreswyl, rhaid iddo fod yn gysylltiedig â'r Cod Ymarfer. Heb hynny, dydy'r Cod yn ddim ond set o ddisgwyliadau nad ydyn nhw'n gysylltiedig â addasrwydd i weithio yn y sector.

Rhaid i'r Cod Ymarfer gyfeirio at Hawliau Dynol ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig a rhaid i SCW ymgynghori ar y Cod. Mae angen i'r Cod nodi'n glir beth ydy'r disgwyliadau ar y gweithlu fel eu bod yn ymwybodol mai eu tasg nhw ydy gweithio gydag unigolion a grymuso unigolion i fyw bywyd o'r ansawdd orau posibl, sicrhau nad ydy problemau ynghylch gallu ac asesiadau risg yn llesteirio hawl unigolyn i wneud penderfyniadau, hyd yn oed os gallai hyn olygu cymryd risgiau.

Mae'r Comisiynydd o'r farn mai dull gwell o yrru ansawdd gofal i fyny fyddai trwy gryfhau'r gofynion ynglŷn â hyfforddi gorfodol ar y gweithlu cyfan a sicrhau bod modd adnabod ac eithrio'r rhai nad ydyn nhw'n ffit i ymarfer o'r sector. Rhaid i hyfforddiant mewn perthynas â'r Cod Ymarfer fod yn orfodol ar ddarparwyr fel bod rhaid iddyn nhw hyfforddi eu holl staff mewn perthynas â'r Cod.

Un o'r dulliau mwyaf effeithiol o yrru ansawdd gofal i fyny ydy trwy ddefnyddio cymwyseddau recriwtio manwl, cryfhau hyfforddiant ymsefydlu a datblygu proffesiynol parhaus (DPP). Fel y nodir yn Adolygiad y Comisiynydd o Gartrefi Gofal yn Anghenion Gweithredu 2.3 a 5.3, mae 'wedi ei gymhwyso'n briodol' yn cynnwys y gofynion hyfforddi canlynol :

a) *Staff yn deall ac yn gallu lleihau'r ffactorau risg yn gysylltiedig gyda chwympiadau*
b) *Staff yn deall cydbwysedd rheoli risg yn erbyn y cysyniad o ansawdd bywyd*

c) *Staff yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol gyda Rheolwyr Cartrefi Gofal yn derbyn hyfforddiant dementia pellach ar sail barhaus fel rhan o'u datblygiad sgiliau a galluoedd*
d) *Hawliau pobl hŷn*
e) *Gofal, tosturi, caredigrwydd, urddas a pharch.*

Byddai'r Comisiynydd yn disgwyl i'r Bil roi pwerau i SCW i orfodi hyn yn y system gofal cymdeithasol.

Atebolrwydd: Unigolyn Cyfrifol

Adran 19 – Unigolyn Cyfrifol (Rhan 1, Pennod 2)

Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r bwriad i gryfhau atebolrwydd corfforaethol a'r amrediad o ddyletswyddau y bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn atebol amdanyn nhw. Mae manylion y ddeddfwriaeth eilaidd a fydd yn gorwedd o dan y bwriadau hyn yn hanfodol i'w lwyddiant ac bydd angen ymgysylltu'n eang â phartneriaid perthnasol wrth ei ddatblygu. Ond, mae yna nifer o gwestiynau ynghylch sut y bydd y bwriad yma yn cael ei roi ar waith a pha wahaniaeth gwirioneddol y bydd yn ei wneud pan fo gofal gwael wedi digwydd. Er enghraifft, beth sy'n atal aelod arall o'r Bwrdd rhag dod yn Berson Cyfrifol? Er y gallai hyn gael gwared ar yr unigolyn ni fydd yn newid y diwylliant ar y brig. Yn yr un modd, lle mae perchennog unigol yn Berson Cyfrifol, pwy fyddai yn cymryd ei le pe bai angen cael gwared arno?

adran 19(4) Rheoliadau – pennu addasrwydd i fod yn Berson Cyfrifol

adran 27 (1) Rheoliadau – dyletswyddau a roddir ar Berson Cyfrifol

Rhaid cael sancsiynau posibl i gyd-fynd ag atebolrwydd hefyd ac mae'r Comisiynydd yn croesawu'r drosedd ditiadwy arfaethedig o fethu cydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir gan arolygydd. Dylai hyn fod yn fater i'r Person Cyfrifol a dylid darparu adnoddau i arolygwyr allu gweithredu hyn. Mae angen eglurder pellach ar y cysylltiadau â'r system cyfiawnder troseddol.

Gall perchnogion roi pwysau ar y Person Cyfrifol, ac mae'n bwysig felly fod y Bil yn gwneud darpariaethau ar gyfer rheoliadau ar 'addasrwydd i fod yn berchennog' gwasanaeth, sydd ar hyn o bryd wedi'i hepgor o'r Bil. Dylai hyn fod ar wyneb y Bil i anfon neges gref a chlir ynghylch yr hyn sy'n dderbyniol yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd o'r farn y dylid atal person sydd wedi bod yn berchen ar gartref gofal sydd wedi cau oherwydd gofal gwael sylweddol rhag bod yn berchen ar gartref gofal yn y dyfodol. Rhaid adlewyrchu hyn yn y rheoliadau, ynghyd â'r gofyniad i berchennog ddangos gallu ariannol i reoli busnes.

Bydd y rheoliadau sy'n nodi'r dyletswyddau y bydd y Person Cyfrifol yn atebol amdanyn nhw a'r rheoliadau a fydd yn pennu 'addasrwydd i ymarfer' yn holl bwysig i sicrhau bod bwriad y Bil yn cael ei roi ar waith. Bydd y Comisiynydd yn cymryd diddordeb agos yn hyn oherwydd, er enghraifft, un o'r dyletswyddau y mae'n rhaid i'r Person Cyfrifol fod yn atebol amdano ydy sicrhau iechyd ariannol a chorfforaethol y gwasanaeth.

Atebolrwydd: Addasrwydd i Ymarfer

Adran 116 – Addasrwydd i Ymarfer (Rhan 6, Pennod 1)

Er bod y Bil yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer pryd y mae 'addasrwydd i ymarfer' wedi'i amharu, mae'r Comisiynydd yn bryderus nad oes yna ddiffiniad o 'berfformiad diffygiol' ar wyneb y Bil. Mae sicrhau safonau uchel yn y gweithlu yn un o egwyddorion ysgogol y Bil ac ni ddylid ei bennu felly mewn rheoliadau.

adran 116 (6) Rheoliadau – sail amhariad addasrwydd i ymarfer

Ni ddylid barnu 'addasrwydd i ymarfer' chwaith ar y dystiolaeth o bethau negyddol yn unig: dylai hefyd gynnwys pethau cadarnhaol.

Atebolrwydd: Troseddau

Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r bwriad i greu dau drosedd ychwanegol mewn perthynas â chyflwyno datganiadau blynyddol a methiant i arddangos tystysgrif gofrestru, yn ogystal â'r hyblygrwydd i drin troseddau cyfredol fel troseddau ditiadwy. Ond, mae'n bwysig nodi barn y Comisiynydd ar annigonolrwydd y gyfraith droseddol ar lefel y Deyrnas Unedig, yn enwedig mewn perthynas â phrofi bwriad mewn achosion o esgeulustod bwriadol a'r diffyg cyfrifoldeb corfforaethol cyfredol.

Mae hon yn ddadl y dylai Llywodraeth Cymru ei chynnal mewn perthynas â'r Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd, ac mae'r Comisiynydd yn fodlon darparu papur ar wahân ar y pwnc yma oherwydd er nad yw wedi ei ddatganoli, mae ganddo gyfeiriad clir at bobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol.

Adran 41-54 – Troseddau (Rhan 1, Pennod 5)

Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol: Adroddiadau Blynyddol

Er bod darparwyr gofal yn atebol am ansawdd y gofal a ddarperir, mae gan wasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol lefel o atebolrwydd o ran cymorth a gomisiynir a'r dyletswyddau a roddwyd arnyn nhw o dan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae'n gywir ac yn briodol felly eu bod yn adrodd yn flynyddol ar eu gwaith. Ar hyn o bryd mae'n ofynnol iddyn nhw gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ac mae'r Comisiynydd yn croesawu'r gofynion o dan y Bil i Gynulliad Cenedlaethol Cymru graffu ar yr adroddiadau yma. Mae hwn yn gam pwysig o ran craffu ar berfformiad gwasanaethau cymdeithasol ar draws Cymru. Ond, fydd hwn ond yn gam ymlaen os bydd y rheoliadau sy'n amlinellu'r hyn sydd i'w gynnwys yn yr adroddiadau yma yn nodi'r materion cywir i adrodd arnyn

Adran 55 - Adroddiadau gan awdurdodau lleol a dyletswydd gyffredinol Gweinidogion Cymru (Rhan 1, Pennod 6)

Adran 56 – Adolygiadau, ymchwiliadau ac arolygiadau (Rhan 1, Pennod 6)

nhw.

adran 55(3) – Rheoliadau i bennu ffurf yr adroddiad blynyddol

Oherwydd y bydd hyn yn destun cynnig negyddol gan ei fod yn cael ei ddeddfu drwy welliant i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ni chaiff Aelodau'r Cynulliad gyfle i newid y gofynion hyn, a'r unig ddewis fydd ar gael ydy canslo'r rheoliadau. Mae'r Comisiynydd o'r farn felly y dylai'r rheoliadau sy'n cynnwys yr wybodaeth y dylai'r awdurdodau lleol adrodd arno fod yn destun y weithdrefn uwchgadarnhaol. Byddai hyn yn caniatáu dadl ar y cynigion cychwynnol yn ogystal ag ar yr ail ddrafft yn sgil ymgynghori. Mae'r Comisiynydd o'r farn hefyd y dylai Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu naratif clir mewn perthynas â phob adroddiad yn nodi a ydy hi'n ystyried bod gwaith yr awdurdod lleol yn dderbyniol, yn ogystal â throsolwg o ansawdd darpariaeth gofal cymdeithasol ar draws Cymru.

O ran yr hyn y dylid ei gynnwys yn y rheoliadau ar ofynion adroddiadau, dydy'r Comisiynydd ddim yn gweld unrhyw reswm pam na ddylid cynnwys y materion a nodir yn ei Hadolygiad o Gartrefi Gofal yn Angen Gweithredu 6.7:

Cyhoeddir Datganiadau Ansawdd Blynyddol gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal wedi'u comisiynu ac wedi'u rhedeg gan Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

a) *argaeledd eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal*
b) *ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, gan gynnwys cyfeiriad penodol at bobl hŷn yn byw gyda dementia a/neu golled synhwyraidd*
c) *sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws yr awdurdod lleol, barn pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg am ansawdd bywyd a gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal*
d) *lleoliad daearyddol cartrefi gofal*

Adroddiad Blynyddol gan AGGCC (Adroddiad y Prif Arolygydd)

Mae'r Comisiynydd yn croesawu bwriad AGGCC i ymestyn y defnydd o ymwelwyr annibynnol i roi safbwyntiau ychwanegol ar wasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol.

Mae'r Bil yn datgan y caiff yr Adroddiad Blynyddol gan AGGCC gynnwys hefyd wybodaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn credu ei bod yn briodol. Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i adroddiad y Prif Arolygydd gynnwys sylwebaeth hefyd ar ansawdd bywyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal. Yn unol ag Angen Gweithredu 6.9, rhaid i'r Bil ddatgan bod rhaid i'r adroddiad adlewyrchu:

a) *argaeledd eiriolaeth annibynnol*
b) *ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, gan gynnwys cyfeiriad penodol at bobl hŷn yn byw gyda dementia a/neu golled synhwyraidd*
c) *sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal,*
d) *barn pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg am ansawdd bywyd a gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal*

Er bod y Comisiynydd yn croesawu'r ddyletswydd ar AGGCC i ymgysylltu â'r cyhoedd wrth gynhyrchu'r adroddiad ar gyfer y Prif Arolygydd, rhaid i wyneb y Bil fod yn gliriach bod rhaid i hyn fod yn ymgysylltu parhaus ac

ystyrlon sy’n clywed lleisiau a phrofiadau pobl hŷn, gan gynnwys y rhai sy’n byw â dementia a/neu golled synhwyraidd. Amlinellir egwyddorion y Comisiynydd ynghylch yr arferion gorau mewn ymgysylltu yn Atodiad A.

Atodiad A – egwyddorion ynghylch yr arferion gorau mewn ymgysylltu

Ymgysylltu â phobl hŷn yng Nghymru

'Ymglymiad parhaus pobl hŷn, eu fforymau/rhwydweithiau a'r sefydliadau statudol a sector gwirfoddol sy'n cynrychioli eu buddiannau drwy ymgynghoriad neu drafodaeth anffurfiol.' Proses ddwyffordd yw ymgysylltiad sy'n cynnwys gwrando gweithredol. Dylai fod yn ystyrlon a dylai'r Awdurdod Lleol gael ei weld yn rhyngweithio gyda phobl hŷn, yn eu hannog i gyfranogi, mabwysiadu dull cynhwysol a dangos parodrwydd i newid o ganlyniad i ddysgu drwy ymgysylltu ymgysylltu.

Ymgysylltu Ymarferol

- Dylai Awdurdodau Lleol ymgysylltu gydag amrediad eang o bobl hŷn yn barhaus. Gellir cyflawni hyn drwy sefydliadau sy'n cynrychioli pobl hŷn, ond yn ogystal dylai Awdurdodau Lleol ddarganfod ffyrdd i ymgysylltu ag unigolion nad ydyn nhw yn mynychu'r grwpiau mwyaf amlwg. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried lle mae pobl hŷn a lle maen nhw'n mynd yn ystod eu bywydau beunyddiol. Ni ddylid meddwl am bobl hŷn fel grŵp ar wahân o weddill y gymuned. Gyda'u gwybodaeth a'u profiad, mae pobl hŷn mewn lle da i fesur pwysigrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau cymunedol.

- Dylai Awdurdodau Lleol gydnabod bod llawer o bobl hŷn yn parhau yn egnïol drwy barhau i weithio, ymrwymiadau gofal plant ac oedolion neu wirfoddoli ac felly ychydig o amser sydd ganddyn nhw i leisio eu pryderon a'u blaenoriaethau ynglŷn â gwasanaethau cymunedol. Mae gan bobl hŷn gyfyngiadau ar eu hamser yn yr un ffordd â phobl ifanc.

- Dylai Awdurdodau Lleol ystyried yn ogystal y bobl hŷn hynny nad ydyn nhw mor weladwy mewn bywyd beunyddiol: mae'n hanfodol nad ydyn nhw yn cael eu cadw allan o ymgysylltiad ar wasanaethau cymunedol.

- Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau eu bod yn cynnwys pobl na chlywir 12 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymrueu lleisiau yn aml. Yn ogystal, ceir gofynion penodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fod yn rhaid i Awdurdodau Lleol gydymffurfio â nhw mewn perthynas ag ymgysylltu â phobl gyda nodweddion gwarchodedig.

- Dylai Awdurdodau Lleol ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ar gyfer ymgysylltu, e.e. cynulleidfaoedd cyhoeddus, cyfarfodydd wyneb yn wyneb, gohebiaeth drwy lythyr neu e-bost, sgyrsiau ffôn, cyfryngwyr neu eiriolwyr lle bo'r angen. Dylai lleoliadau a gwybodaeth fod ar gael i bawb.

- Dylai gwahoddiadau i ymgysylltu fod yn agored ac arwain at berthynas barhaus gyda phobl hŷn, yn hytrach na bod yn gysylltiedig ag un mater unigol. Os yw unigolyn hŷn yn nodi rhwystr i ymgysylltu, yna dylai Awdurdodau Lleol wneud ymdrechion gwirioneddol i ddileu'r rhwystr hwnnw.

- Dylai ymgysylltiad ddigwydd pan fydd pobl hŷn yn cael cyfle gwirioneddol i gyfrannu eu meddyliau, lleisio'u pryderon a dylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Yn ogystal, dylid rhoi ystyriaeth i sut y mae fforymau lleol ac unigolion sy'n cynrychioli pobl hŷn fel Eiriolwyr dros Bobl Hŷn, Cydlynwyr Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn, a Fforymau 50+, yn gallu bwydo i'r broses ymgysylltu ac ymgynghori.

- Dylai Awdurdodau Lleol ddweud wrth bobl hŷn sut mae eu meddyliau a'u safbwyntiau wedi helpu i lunio'r cynigion ar gyfer ymgynghori.

- Dylai Awdurdodau Lleol roi sylw arbennig i Egwyddor 7 o Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn6 , sy'n datgan y dylai pobl hŷn aros yn integredig yn y gymdeithas a chyfrannu'n weithredol mewn llunio a gweithredu polisïau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu lles. Felly, mae darparu gwasanaethau cymunedol, mewn un ffurf neu'r llall, yn hanfodol yn y cyswllt hwn.

Atodiad B – Diffiniad o hyrwyddwr dementia

Beth mae'r Comisiynydd yn ei olygu wrth Hyrwyddwr Dementia?

Mae hyrwyddwr dementia yn gyfrwng o hyrwyddo perchnogaeth cartrefi gofal o ymarfer da o ran ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw gyda dementia mewn cartrefi gofal.

Canfu adolygiad y Comisiynydd, pan oedd unigolion neu dimau'n cael eu cefnogi i ddeall, hyrwyddo ac ymgysylltu â hawliau a phrofiadau bywyd pobl â dementia: roedd preswylwyr yn hapusach, roedd llai o ymddygiad 'heriol' ac roedd staff yn dweud eu bod yn fwy bodlon yn eu gwaith. Yn bwysicach na dim, canfuwyd bod y cartrefi hyn yn sicrhau canlyniadau gwych i'r holl breswylwyr.

Nid yw'r Comisiynydd wedi ymrwymo i ffordd benodol o roi rhaglen neu hyrwyddwr dementia ar waith mewn cartrefi gofal. Ond bydd yn dymuno gweld pa gamau rydych chi wedi'u cymryd, neu y byddwch chi'n eu cymryd, i sicrhau bod canlyniadau ansawdd bywyd a gofal yn cael eu cyflawni a'u gwella'n barhaus ar gyfer pobl hyn sy'n byw gyda dementia a breuder emosiynol. Gallai hyn fod drwy gefnogaeth rhaglen newid allanol neu fewnol neu drwy gefnogi unigolyn dynodedig brwdfrydig a llawn cymhelliant y byddwch chi'n ei rymuso i yrru newid sefydliadol, bod yn fodel o ymarfer da a herio canlyniadau gofal gwael.

Atodiad C – Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Adolygiad Cartrefi Gofal: Anghenion Gweithredu

Casgliad Allweddol 1: Mae gormod o bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yn cael eu sefydliadu yn gyflym. Mae eu hunaniaeth a'u hunigoliaeth yn gwanio'n gyflym ac mae ganddynt ddiffyg dewis a rheolaeth ar eu bywydau. **Polisi Llywodraeth Cymru a meysydd deddfwriaethol:** Ddeddf Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus a Lles (Cymru) 2014, Datganiad Hawliau Pobl Hŷn, Fframwaith ar gyfer Cyflawni Gofal Iechyd a Chymdeithasol Integredig i Bobl Hŷn ag Anghenion Cymhleth, Asesu Integredig, Trefniadau Cynllunio ac Adolygu ar gyfer Pobl Hŷn.			
Camau Gofynnol	**Canlyniad**	**Effaith peidio â gweithredu**	**Gan bwy / Erbyn pryd**
1.1 Dylid datblygu a gweithredu dull cenedlaethol o gynllunio gofal mewn cartrefi gofal o gwmpas Cymru. Mae'n rhaid i hyn gefnogi: • **Cyfranogiad llwyr y person hŷn er mwyn sicrhau bod ganddo lais effeithiol, yn cynnwys cefnogaeth eirioli pan fo angen hynny. Gall hyn gynnwys eiriolaeth annibynnol neu eiriolaeth o dan y Ddeddf Galluedd**	Pobl hŷn yn derbyn gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ymarferol ac emosiynol er mwyn iddynt setlo'n eu cartref newydd cyn gynted â bod y penderfyniad i symud i gartref gofal yn cael ei wneud (Cam 1.1, 1.2). Anghenion corfforol, emosiynol a chyfathrebu pobl hŷn yn cael eu deall	Nid yw pobl hŷn yn gallu setlo yn eu cartrefi newydd, ac mae hyn yn effeithio'n niweidiol ar eu hiechyd a'u lles. Nid yw anghenion, dymuniadau a dyheadau unigol pobl hŷn yn cael eu cydnabod na'u deall, ac o ganlyniad mae'r gallu i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt y cael ei danseilio, yn	Llywodraeth Cymru Tachwedd 2015

Meddyliol. • **Sicrhau bod hanes personol, diddordebau cymdeithasol a diwylliannol, gwaith, cyflawniadau, hoffterau, anhoffterau a dyheadau'r unigolyn yn cael eu deall a'u hadlewyrchu yn ei fywyd yn y dyfodol. Mae'n rhaid i hyn gynnwys anghenion diwylliannol ac ieithyddol pob person hŷn, yn** cynnwys pobl hŷn sy'n Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol, Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a rhai sy'n arddel ffydd neu nad ydynt yn arddel ffydd. • Cefnogaeth pontio ar ôl penderfynu symud i gartref gofal er mwyn sicrhau bod y broses o gynllunio gofal yn cychwyn cyn symud i gartref gofal. • Bodloni anghenion emosiynol	yn iawn, yn ogystal â'r materion sydd bwysicaf iddynt, a bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y gwasanaethau, cefnogaeth a'r gofal maent yn ei dderbyn. Pobl hŷn â rheolaeth wirioneddol ar eu bywydau bob dydd ac yn gwneud dewisiadau, ac yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt, yn cynnwys cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu a'u cymuned leol.	ogystal â'u hansawdd bywyd a'u lles meddyliol. Nid yw pobl hŷn yn gallu cyfathrebu'n effeithiol, ac mae hyn yn arwain at fwy o risg o arwahanrwydd, neilltuo ac esgeulustod emosiynol. Mae pobl hŷn yn colli'r hawl i benderfynu drostynt eu hunain,ei hannibyniaeth ac i reoli eu bywydau bob dydd.	

pobl hŷn er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn annwyl i rywun, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn derbyn gofal. • Bodloni anghenion cyfathrebu pobl sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrau. • Anghenion siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. • Hawliau i ofal iechyd ac asesu ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd ac atgyfeirio at y gwasanaethau hynny. • Hawliau'r unigolyn yn erbyn rheoli risg.			

• Asesu amlddisgyblaethol (ar draws Byrddau Iechyd, Awdurdodau lleol ac yn cynnwys sefydliadau'r trydydd sector) ac asesu clinigol arbenigol. Dylai'r canllawiau yma gael eu halinio'n amlwg â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol, sy'n sylfaen i Ddeddf Gwasanaethu Cyhoeddus a Lles (Cymru) 2014. Dylid adrodd yn ôl yn flynyddol ar gynlluniau ansawdd gofal a chynllunio gofal yn erbyn y canllawiau cenedlaethol ac yn erbyn canlyniadau'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol (gweler cam 6.10).			
1.2 Mae'r holl bobl hŷn, neu eu heiriolwyr, yn derbyn 'Pecyn Croeso' safonol wrth gyrraedd cartref gofal sy'n nodi sut y bydd Rheolwr y Cartref Gofal yn sicrhau y bydd eu hanghenion yn cael eu bodloni, eu	Pobl hŷn yn ymwybodol o'u hawliau a beth i'w ddisgwyl mewn cartref gofal. Pobl hŷn yn gwybod yn iawn sut y gallant leisio pryderon	Nid yw pobl hŷn yn ymwybodol o'r gefnogaeth y dylid fod ar gael iddynt wrth iddynt symud i'w cartref newydd, a gall hyn arwain at ddisgwyliadau isel a diffyg	Llywodraeth Cymru a Darparwyr Cartrefi Gofal

hawliau'n cael eu parchu a'u bod yn cael yr ansawdd bywyd gorau posibl. Bydd y Pecyn Croeso yn cyfeirio'n benodol at: • Sut fydd rheolwr y cartref gofal yn cefnogi'r preswylydd wrth iddo symud i'w gartref newydd. • Gwybodaeth safonol am eu hawliau dynol yn unol â Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn Cymru.* • Datganiad o Hawliau i dderbyn cefnogaeth gofal iechyd.* • Cefnogaeth i gynnal annibyniaeth, ymataliaeth, symudedd a lles corfforol ac emosiynol. • Sicrhau bod eu hanghenion cyfathrebu'n cael eu bodloni, yn cynnwys pobl sy'n colli	a derbyn cymorth i wneud hynny.	atebolrwydd ar ran darparwyr. Mae yna risg i bobl hŷn ddioddef esgeulustod a chamdriniaeth oherwydd nad ydynt yn ymwybodol ynghylch pwy y dylent siarad â hwy petaent angen cymorth wrth gwyno neu petaent angen sefyll dros eu hawliau. Mae yna risg na fydd pobl hŷn yn derbyn yr hyn sy'n ddyledus iddynt, a gall hyn arwain at danseilio eu hiechyd, lles ac ansawdd bywyd.	Mawrth 2016

defnydd o synhwyrau. • Cynnal cyfeillgarwch a chyswllt cymdeithasol. • Cefnogaeth i'w help i gynnal eu hannibyniaeth ac i barhau i allu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt. • Datblygu a chynnal y gofal a roddir iddo a'r cynllun cefnogaeth, a beth fydd yn gynwysedig ynddo.* • Sicrhau diwylliant o urddas a pharch a dewis a rheolaeth ar fywyd bob dydd. • Sgiliau a hyfforddiant staff. • Eu hawl i dderbyn eiriolaeth annibynnol a sut i leisio			

pryderon.* Dylai'r meysydd a nodir gyda * fod mewn fformat safonol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws Cymru)			
1.3 Dylai cefnogaeth ymataliaeth arbenigol fod ar gael i bob cartref gofal er mwyn cefnogi arferion gorau o ran gofal ymataliaeth, a hynny'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol eglur o ran defnyddio cymhorthion ymataliaeth ac urddas.	Pobl hŷn yn cael cefnogaeth i gynnal eu hymataliad a'u defnydd annibynnol o'r toiled ac yn derbyn preifatrwydd, urddas a pharch bob amser (Cam 1.1, 1.3, 1.5).	Mae pobl hŷn yn ddiangen yn dechrau dioddef ag anymataliaeth ac mae eu hurddas yn cael ei danseilio'n sylweddol.	Llywodraeth CymruCanllawiau Ebrill 2015 Byrddau Iechyd Gweithredu Rhagfyr 2015
1.4 Dylid datblygu a gweithredu canllawiau arferion da cenedlaethol mewn perthynas ag amseroedd bwyta a'r profiad o fwyta, yn cynnwys ar gyfer y rhai sy'n byw â dementia.	Mae amser bwyd yn brofiad cymdeithasol ac urddasol, a phobl hŷn yn derbyn dewis ac amrywiaeth gwirioneddol, o ran beth maent yn ei fwyta a phryd maent yn bwyta (Cam 1.1, 1.4).	Nid yw pobl hŷn yn mwynhau amseroedd bwyta, mae yna fwy o risg iddynt ddioddef â diffyg maeth ac afiechyd o ganlyniad i ddiffyg cefnogaeth yn ystod amseroedd bwyta ac iddynt golli rhyngweithio cymdeithasol ystyrlon a phwysig. Mae urddas pobl hŷn yn cael ei danseilio'n sylweddol.	Llywodraeth Cymru Ebrill 2015

1.5 Dylid datblygu a chyhoeddi rhestr benodol o ‘ddigwyddiadau byth bythoedd’ sy’n amlinellu’n eglur beth yw’r arferion y dylid rhoi terfyn arnynt yn syth. Dylai’r rhestr gynnwys y defnydd o iaith, gofal personol a hylendid, a thorri hawliau dynol.	Pobl hŷn yn cael eu trin ag urddas a pharch ac ni ddefnyddir iaith sy’n eu hamharchu a hynny’n cael ei ystyried fel math o gam-drin (Cam 1.1, 1.3, 1.4, 1.5, 4.6).	Mae arferion annerbyniol yn parhau ac nid oes neb yn ei herio.	AGGCC Mawrth 2015
1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol: pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol. lle mae cartref gofal yn cau neu person hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid. pan fo person hŷn angen cymorth i’w helpu i adael yr ysbyty. Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau	Pobl hŷn sy’n byw mewn cartrefi gofal sy’n cau, yn ogystal â phobl hŷn sydd mewn perygl o ddioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, rhywiol neu ariannol, yn cael mynediad i eiriolaeth annibynnol neu eiriolaeth na chyfarwyddir.	Nid yw pobl hŷn yn gallu sicrhau eu hawliau i gael rhywun i ddelio â’u pryderon, sy’n golygu bod yna fwy o risg iddynt ddioddef niwed. Mwy o risg o fod yn destun adolygiadau o arferion yn ymwneud ag oedolion ac ymgyfreitha sifil.	Awdurdodau Lleol a Darparwyr Cartref Gofal A Byrddau Iechyd Ebrill 2015

cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir. Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.			

Casgliad Allweddol 2: Yn rhy aml, ystyrir bod cartrefi gofal yn llefydd o ddirywiad anadferadwy ac mae gormod o bobl hŷn yn methu cael mynediad i wasanaethau a chefnogaeth arbenigol fyddai'n eu helpu i gael yr ansawdd bywyd gorau. **Polisi Llywodraeth Cymru a meysydd deddfwriaethol**: Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Lles (Cymru) a Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu, Law yn Llaw at Iechyd - Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc 2012-16.			
Canlyniad	**Canlyniad**	**Effaith peidio â gweithredu**	**Gan bwy / Erbyn pryd**
2.1 Datblygu a gweithredu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer hyrwyddo iechyd corfforol a lles meddyliol a gwelliannau mewn cartrefi iechyd. Mae hyn yn cyfuno blaenoriaethau iechyd ehangach, yn ogystal â ffactorau risg penodol sy'n	Pobl hŷn yn elwa o ddull cenedlaethol a systematig o hyrwyddo iechyd sy'n eu galluogi i gynnal a gwella eu hiechyd corfforol a lles meddyliol.	Mae mwy o risg i bobl hŷn ddioddef cwympiadau neu afiechyd. Bydd iechyd corfforol a meddyliol pobl hŷn yn dirywio yn gyflymach nag sydd angen	Llywodraeth Cymru Mawrth 2016

gysylltiedig â chartrefi gofal, megis unigrwydd ac arwahanrwydd, cwympiadau, iselder, colli deheurwydd corfforol a symudedd.		iddo, ac maent angen gofal arbenigol yn gynharach. Cynnydd mewn llwyth a phwysau gwaith gweithlu cartrefi gofal. Cynnydd mewn atgyfeirio i wasanaethau'r GIG, yn ogystal ag arosiadau hirach mewn ysbytai i bobl hŷn.	
2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.	Pobl hŷn yn derbyn cefnogaeth lawn, yn dilyn cyfnod o salwch difrifol, er enghraifft yn dilyn cwymp, neu strôc, er mwy eu galluogi i wneud y mwyaf o'un hannibyniaeth a'u hansawdd bywyd.	Mae pobl hŷn yn dioddef â llai o symudedd, mwy o eiddilwch a cholli annibyniaeth, a mwy o risg, o ganlyniad i ddiffyg symudedd, o ddioddef problemau iechyd sylweddol, megis doluriau pwysau, niwmonia a dirywiad o ran iechyd meddwl.	Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol mewn partneriaeth Gorffennaf 2015
2.3 Datblygu a gweithredu Rhaglen Atal Cwympiadau Cenedlaethol ar gyfer cartrefi gofal. Dylai hyn gynnwys:	Y risg o bobl hŷn yn cwympo yn cael ei leihau, heb danseilio eu hawl i ddewis a rheoli eu bywydau a'u gallu i wneud y pethau	Mae yna fwy o risg i gwympiadau arwain at bobl hŷn yn dioddef â llai o symudedd, mwy o eiddilwch a cholli annibyniaeth, a mwy o	Llywodraeth Cymru Tachwedd 2015

• Galluogi pobl i aros yn actif mewn ffordd ddiogel • Uwchraddio sgiliau holl staff cartrefi gofal o ran deall a lleihau'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â chwympiadau. • Cydbwyso rheoli risg a'r cysyniad o ansawdd bywyd a hawliau dynol pobl hŷn, er mwyn sicrhau nad yw camau atal risg a gymerir gan staff yn arwain at ofal cyfyngol. Adrodd yn flynyddol am gwympiadau mewn cartrefi gofal (gweler cam 6.8).	sy'n bwysig iddynt.	risg, o ganlyniad i ddiffyg symudedd, o ddioddef problemau iechyd sylweddol, megis doluriau pwysau, niwmonia a dirywiad o ran iechyd meddwl. Effaith ariannol sylweddol ar y GIG oherwydd cynnydd mewn derbyniadau.	
2.4 Datblygu a chyhoeddi canllawiau arferion gorau cenedlaethol ynghylch amgylchedd y cartref gofal a chymhorthion ar gyfer bywyd bob dydd, megis dolenni sain a rheoli sŵn, y dylai pob cartref newydd a chartrefi a adnewyddir gydymffurfio â hwy. Dylai'r canllawiau hyn hefyd gynnwys mân newidiadau gorfodol y gellir eu gwneud i gartrefi gofal a	Mae amgylchedd pob cartref gofal yn hygyrch y tu allan a'r tu mewn, ac yn gefnogol i ddementia a cholli defnydd o synhwyrau.	Nid yw pobl hŷn yn gallu symud o gwmpas y cartref gofal yn ddiogel ac yn annibynnol na gwneud y pethau maent yn eu mwynhau. Mae pobl hŷn yn cael trafferth cyfathrebu gyda'i gilydd a'r staff, ac mae hyn yn arwain at arwahanrwydd a neilltuo.	Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2015

mannau awyr agored er mwyn galluogi pobl hŷn sy'n colli defnydd o synhwyrau a/neu sy'n dioddef â dementia i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth ac ansawdd bywyd.			

Casgliad Allweddol 3: Nid yw eiddilwch emosiynol ac anghenion emosiynol pobl hŷn yn cael eu deall na'u cydnabod yn llwyr gan y system, ac nid yw esgeulustod emosiynol yn cael ei gydnabod fel camdriniaeth. **Polisi Llywodraeth Cymru a meysydd deddfwriaethol**: Law yn Llaw at Iechyd Meddwl - Strategaeth ar Gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Gweledigaeth Genedlaethol Cymru ar Ddementia 2011 a Thargedau Deallus ar gyfer Dementia. Safon Ansawdd Dementia NICE 2010. Safon Ansawdd Dementia NICE 2010 a Chanllaw Clinigol NICE 42. Tachwedd 2006 (diwygiwyd Mawrth 2011).			
Camau Gofynnol	**Canlyniad**	**Effaith peidio â gweithredu**	**Gan bwy / Erbyn pryd**
3.1 Datblygu rhaglen hyfforddi genedlaethol yn seiliedig ar werthoedd a thystiolaeth safonol ynghylch dementia sy'n cynnwys lefelau hyfforddiant sylfaenol, canolradd ac uwch, sy'n defnyddio realiti corfforol ac emosiynol pobl sy'n byw â dementia er mwyn	Mae'r holl staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal yn deall anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn sy'n byw â dementia ac nid yw capasiti'n cael ei ragdybio	Mae pobl hŷn mewn perygl o ddioddef esgeulustod emosiynol, yn ogystal â pharhau i gael eu camddeall a'u labelu fel 'heriol' neu 'anodd', oherwydd nad yw gweithlu'r cartref gofal yn gwybod sut i gyfathrebu ac	Llywodraeth Cymru Tachwedd 2015

galluogi staff i ddeall anghenion pobl sy'n byw â dementia yn well.	mwyach (Cam 3.1, 3.2).	ymateb i'w hanghenion.	
3.2 Mae holl weithwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'r drefn gynefino, ac mae'r holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia ychwanegol yn barhaus fel rhan o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, ac mae hyn yn elfen benodol o oruchwylio ac asesu perfformiad		Mae pobl hŷn yn teimlo'n bryderus ac ofnus, yn ddryslyd ac ar goll, ac mae eu gallu i reoli eu bywydau yn cael ei danseilio. Cynnydd mewn derbyniadau i ysbytai a mwy o alw am ofal iechyd o ganlyniad i fethu â deall na bodloni anghenion pobl hŷn. Mwy o risg o weld enghreifftiau o ofal annerbyniol. Cynnydd sylweddol yn y pwysau ar weithlu'r cartref gofal. Canfyddiad ehangach yn y gymdeithas bod yna ddiffyg tosturi mewn gofal preswyl a nyrsio.	Awdurdodau Lleol a DarparwyrAnnibynnol Dechrau Ionawr 2016
3.3 Dylid cymryd camau o ddifrif i annog defnyddio cynlluniau	Pobl hŷn yn cael eu cefnogi i adfer eu	Mae pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn	Darparwyr Cartref Gofal

cyfeillio mewn cartrefi gofal, yn cynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chefnogi preswylwyr i ddal eu gafael ar gyfeillgarwch sy'n bodoli. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau mynediad parhaus i gefnogaeth sy'n seiliedig ar ffydd ac i gymunedau diwylliannol penodol. .	cyfeillgarwch presennol â'u cyfeillion a'u bod yn cael cyswllt cymdeithasol ystyrlon, y tu mewn a thu allan i'r cartref gofal. Mae cartrefi gofal yn fwy agored i ryngweithio â'r gymuned ehangach. Mae pobl hŷn yn gallu parhau i arfer eu crefydd a chynnal cysylltiadau ac arferion diwylliannol pwysig.	teimlo'n unig ac yn gymdeithasol ynysig, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i gael cyswllt cymdeithasol ystyrlon, ac mae eu gallu i arfer eu ffydd a dilyn arferion diwylliannol pwysig yn cael ei golli. Mae cartrefi gofal wedi'u hynysu yn neu oddi wrth eu cymunedau, ac mae hyn yn tanseilio gofal a lles pobl hŷn a mynediad i adnoddau a chefnogaeth yn y gymuned ehangach.	ac Awdurdodau Lleol Tachwedd 2015
3.4 Datblygu cefnogaeth iechyd meddwl a lles arbenigol amlddisgyblaethol, mewngymorth ar gyfer pobl hŷn mewn cartrefi gofal, a sicrhau ei fod ar gael, yn cynnwys: • Asesu iechyd meddwl a lles pobl hŷn fel rhan o'u gofal cychwynnol ac asesu datblygiad eu cynllun	Mae anghenion iechyd meddwl a lles pobl hŷn yn cael eu deall, eu hadnabod a'u hadlewyrchu yn y gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal. Mae pobl hŷn yn elwa o gefnogaeth arbenigol sy'n eu galluogi i wneud y mwyaf o'u	Mae yna risg i bobl hŷn â dementia ddioddef dirywiad gwybyddol cyflymedig a defnydd amhriodol o gyffuriau gwrthseicotig. Mae problemau iechyd meddwl parhaus yn tanseilio'u hansawdd bywyd yn sylweddol. Cynnydd mewn llwyth a	Byrddau Iechyd Tachwedd 2015

cefnogaeth a chynllunio eu gofal parhaus. • Cyngor a chefnogaeth i staff gofal ynghylch sut i ofalu'n effeithiol am bobl hŷn ag anghenion lles meddyliol ac iechyd meddyliol, yn cynnwys dementia, a phryd i atgyfeirio. • Llwybrau atgyfeirio amlwg a meini prawf ar gyfer atgyfeirio. • Mae'r holl breswylwyr sydd yn cymryd cyffuriau gwrthseicotig yn cael eu monitro a'u hasesu ar gyfer y posibilrwydd o ddiddyfnu, ac mae adolygiadau yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau NICE. •	hansawdd bywyd. Ni ragnodir cyffuriau gwrthseicotig yn amhriodol i bobl hŷn, neu'n hytrach na dulliau cefnogi nad ydynt yn fferyllol, a chydymffurfir â chanllawiau ynglŷn ag arferion gorau (Cam 3.4, 3.5).	phwysau gwaith staff gofal. Angen gofal preswyl arbenigol yn gynharach a chynnydd mewn Costau Gofal Iechyd Parhaus (CGIP).	

3.5 Mae gwybodaeth yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol ynghylch defnyddio cyffuriau gwrthseicotig yn unol â chanllawiau NICE a Thargedau Deallus ar Gyfer Dementia Llywodraeth Cymru.	Mae esgeuluso pobl hŷn yn emosiynol yn cael ei gydnabod fel math o gamdriniaeth a bod camau priodol yn cael eu dilyn i ymdrin â hyn petai'n digwydd.		Byrddau Iechyd Medi 2015
3.6 Dylai datblygu trefniadau newydd o ran diogelu pobl hŷn sydd angen gofal a chefnogaeth yng Nghymru gydnabod yn bendant bod esgeuluso emosiynol yn fath o gamdriniaeth, a bod hyn yn cael ei adlewyrchu mewn canllawiau, arferion ac adrodd o dan y trefniadau statudol newydd.	.		Llywodraeth Cymru Tachwedd 2015

Casgliad Allweddol 4: Ni chydnabyddir neu ni ymatebir i rai o anghenion gofal mwyaf elfennol pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Polisi Llywodraeth Cymru a meysydd deddfwriaethol: Hanfodion gofal, Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Bobl Hŷn, Law yn Llaw at Iechyd: Gweledigaeth Pum Mlynedd ar gyfer GIG Cymru, Gosod y Cyfeiriad, Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid 2013-2018, Fframwaith Gyflawni GIG Cymru 2013-14 a Chynlluniau ar gyfer y Dyfodol, Cynllun Iechyd Gwledig - Darparu Gwasanaethau yn Well ar draws Cymru, Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg 2013-18, Ddeddf Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus a Lles (Cymru) 2014.			
Camau Gofynnol	**Canlyniad**	**Effaith peidio â gweithredu**	**Gan bwy / Erbyn pryd**
4.1 Datganiad Cenedlaethol a Hawliau i ofal iechyd sylfaenol ac arbenigol i bobl hŷn mewn cartrefi gofal yn cael ei ddatblygu ac mae ar gael i bobl hŷn, yn cynnwys: • Mynediad rheolaidd i wiriadau iechyd y llygaid, y golwg a'r clyw • Cyngor a chefnogaeth ynghylch diet • Mynediad i wasanaethau podiatreg a deintyddol Mynediad i wasanaethau	Mae yna ddull cyson ar draws Cymru o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol ac arbenigol i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal ac mae anghenion gofal iechyd pobl hŷn yn cael eu bodloni (Cam 4.1, 4.2, 4.5). Mae gan bobl hŷn mewn cartrefi gofal nyrsio fynediad i wasanaethau nyrsio arbenigol, megis gofal diabetig, hyfywedd meinwe, rheoli poen a gofal lliniarol	Nid yw pobl hŷn yn gallu gweld na chlywed yn iawn, ac mae hyn yn tanseilio eu gallu i gyfathrebu a'u hannibyniaeth, sy'n golygu bod mwy o risg iddynt ddioddef arwahanrwydd a chwympiadau, neilltuo emosiynol ac iechyd meddwl gwael (Cam 4.1, 4.2, 4.3). Mae gan bobl hŷn gyflyrau iechyd corfforol y gellid eu hatal, ac yn dioddef poen diangen, ac mae eu lles cyffredinol yn cael ei danseilio oherwydd rheoli gwael parhaus ar gyflyrau iechyd	Llywodraeth Cymru Mawrth 2015

nyrsio arbenigol • Mynediad i feddyg teulu a chefnogaeth ynghylch meddyginiaethau • Cefnogaeth iechyd meddwl arbenigol • Hyrwyddo iechyd a chefnogaeth ailalluogi Mae'n rhaid i hyn gynnwys gofal preswyl a nyrsio. Mae darparwyr cartrefi gofal yn sicrhau bod pobl hŷn yn derbyn gwybodaeth am eu hawliau o ran gofal iechyd fel rhan o'u 'Pecyn Croeso' (gweler cam 1.2).	(Cam 4.1, 4.2). Cefnogir pobl hŷn i gynnal eu golwg a'u clyw, drwy wirio iechyd y llygaid, y golwg a'r clyw yn rheolaidd (Cam 4.1, 4.2, 4.3). Mae pobl hŷn yn gallu, neu'n derbyn cefnogaeth i gynnal iechyd y geg a chadw'u dannedd (Cam 4.1, 4.2, 4.3). Mae gan bobl hŷn fynediad llawn i gefnogaeth dietegol er mwyn atal neu ddileu diffyg maeth ac i gefnogi rheoli amodau iechyd (Cam 4.1, 4.2, 4.3).	cronig. Mae pobl hŷn yn colli eu dannedd yn ddiangen ac yn methu bwyta'u hoff fwydydd; nid yw anghenion dietegol yr unigolion yn cael eu bodloni, a gall hyn arwain at ddiffyg maeth ac mae'n tanseilio eu hiechyd cyffredinol. Cynnydd mewn llwyth a phwysau gwaith gweithlu cartrefi gofal. Cynnydd yn y derbyniadau i ysbytai oherwydd cwympiadau a diffyg cefnogaeth gofal sylfaenol er mwyn cynnal annibyniaeth. Methu cyflawni Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Hanfodion Gofal ar gyfer pobl hŷn mewn cartrefi preswyl a nyrsio.	

4.2 Mae cytundeb ffurfiol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu rhwng y cartref gofal a gwasanaethau gofal sylfaenol ac arbenigol yn seiliedig ar y Datganiad o Hawliau. Dylai hyn gynnwys: • Llwybrau atgyfeirio, yn cynnwys mynediad agored • Amseroedd aros • Gwybodaeth am atgyfeirio a rhyddhau • Cyngor a gwybodaeth i gefnogi gofal parhaus y person hŷn yn y cartref. • Mynediad i wasanaethau arbenigol i bobl hŷn mewn cartrefi nyrsio yn unol â'r Canllawiau Hanfodion Gofal.	Mae staff gofal yn deall anghenion pobl hŷn a sut a phryd i gael mynediad i ofal iechyd sylfaenol a gwasanaethau arbenigol.		Byrddau Iechyd a Darparwyr Cartref Gofal Ebrill 2015
4.3 Darperir gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant pan fo'n briodol i staff gofal er mwyn sicrhau eu bod yn	Mae pobl hŷn yn derbyn meddyginiaeth briodol a bod y risgiau sy'n		Byrddau Iechyd

deall ac yn adnabod anghenion iechyd pobl hŷn yn ogystal â phryd a sut i atgyfeirio	gysylltiedig â pholifferylliaeth yn cael eu deall a'u rheoli (Cam 4.3, 5.4).		Tachwedd 2015
4.4 Wrth gyrraedd cartref gofal, mae pobl hŷn yn derbyn adolygiadau o feddyginiaethau gan weithiwr proffesiynol clinigol gymwys, ac adolygiadau rheolaidd o feddyginiaethau'n cael eu cynnal yn unol â'r arferion gorau a gyhoeddwyd.		Risg i bobl hŷn ddioddef rhyngweithio peryglus rhwng meddyginiaethau lluosog.	Byrddau Iechyd Dechrau Ebrill 2015
4.5 Cynghorau Iechyd Cymunedol yn gweithredu rhaglen dreigl o hapwiriadau mewn cartrefi preswyl a nyrsio er mwyn adrodd am gydymffurfio â'r datganiad Cenedlaethol o Hawliau a'r Hanfodion Gofal. Mae'n rhaid cyhoeddi'r adroddiadau fel rhan o ofynion adrodd yn ôl yn Flynyddol.	Mae pobl hŷn yn gallu herio methiannau o ran bodloni eu hawliau, neu'n gallu cael rhywun i herio ar eu rhan.	Nid yw pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn cael mynediad i gorff gwarchod iechyd annibynnol ac nid yw methu bodloni hawliau o ran gofal iechyd yn cael ei herio'n annibynnol.	Llywodraeth Cymru Tachwedd 2015

Casgliad Allweddol 5: Nid yw pwysigrwydd hanfodol rôl a chyfraniad gweithlu cartrefi gofal yn cael ei gydnabod yn ddigonol. Nid oes digon o fuddsoddi yn y sector ac mae yna brinder cefnogaeth i weithlu cartrefi gofal. **Polisi Llywodraeth Cymru a meysydd deddfwriaethol:** Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol, Asesu Integredig, Trefniadau Cynllunio ac Adolygu ar gyfer Pobl Hŷn.			
Camau Gofynnol	**Canlyniad**	**Effaith peidio â gweithredu**	**Gan bwy / Erbyn pryd**
5.1 Datblygu a gweithredu rhaglen recriwtio ac arwain genedlaethol er mwyn recriwtio a hyfforddi rheolwyr cartrefi gofal ar gyfer y dyfodol sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol. Dylai'r rhaglen gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus achrededig ar gyfer rheolwyr cartrefi gofal heddiw ac yn y dyfodol a dylai eu cefnogi i fod yn arweinwyr arferion ac yn hyrwyddwyr diwylliant positif mewn cartrefi gofal. Adrodd yn ôl yn flynyddol ar argaeledd rheolwyr cartrefi gofal cymwys a medrus mewn cartrefi	Mae gan gartrefi gofal reolwyr parhaol sy'n gallu creu diwylliant gofal o alluogi a pharchu, ac sy'n cefnogi staff gofal i alluogi pobl hŷn i gael yr ansawdd bywyd gorau. .	Nid oes gan gartrefi gofal reolwyr neu maent yn rhannu rheolwyr, ac nid oes gan gartrefi gofal arweiniad na throsolwg. Nid oes gan y rheolwyr y sgiliau, cymwysterau na'r gefnogaeth sydd eu hangen i sicrhau y gellir darparu gofal diogel o safon uchel. Mwy o risg y bydd pobl hŷn yn cael ansawdd bywyd a gofal annerbyniol. Mae yna brinder gwybodaeth	Cyngor Gofal Cymru Ebrill 2016

gofal o gwmpas Cymru, yn cynnwys effeithiau lefelau swyddi gwag ar ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn.		ar gael er mwyn cefnogi cynllunio gweithlu. Mae yna brinder cyfleoedd ar gyfer datblygu proffesiynol i reolwyr cartrefi gofal.	
5.2 Datblygu a gweithredu pecyn aciwtedd â safon genedlaethol fydd yn cynnwys canllawiau ynghylch lefelau staffio a'r sgiliau sydd eu hangen i fodloni anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn.	Mae pobl hŷn yn derbyn gofal gan staff gofal a rheolwyr sydd wedi eu hyfforddi I ddeall ac i fodloni eu hanghenion corfforol ac emosiynol, yn cynnwys anghenion pobl â dementia ac sydd wedi colli defnydd o synhwyrau, ac sydd â'r cymwysterau sydd eu hangen i ddarparu gofal gydag urddas a thosturi.	Mae prinder amser a sgiliau yn rhoi pwysau ar staff gofal ac mae hynny'n effeithio ar ansawdd bywyd pobl hŷn ac mae hynny'n arwain at ffocws ar ofal seiliedig ar dasgau, ac mae hynny'n cynyddu'r risg o esgeulustod emosiynol posibl.	Llywodraeth Cymru a Darparwyr Cartrefi Gofal Ebrill 2016
5.3 Datblygu a gweithredu set safonol o sgiliau gorfodol a chymwysterau sy'n seiliedig ar werthoedd, a hynny'n genedlaethol, ar gyfer recriwtio staff gofal mewn cartrefi gofal.	Mae pobl hŷn yn derbyn gofal tosturiol ac urddasol sy'n ymateb iddynt fel unigolion (Cam 5.3, 5.4, 5.5).	Gofalir am bobl hŷn gan bobl nad ydynt yn deall eu hanghenion ac na all eu bodloni (Cam 5.3, 5.4, 5.5). Mae pobl hŷn yn derbyn gofal a chefnogaeth gan staff gofal nad oes ganddynt y sgiliau,	Cyngor Gofal Cymru a Darparwyr Cartrefi Gofal O fis Medi 2015

		gwerthoedd na'r cymwysterau ar gyfer gweithio mewn cartrefi gofal, a gall hyn olygu risg o niwed a/neu esgeulustod emosiynol i bobl hŷn. Nid oes neb yn herio arferion gwael oherwydd diffyg hyfforddiant priodol a diffyg cefnogaeth i'r rhai hynny sydd eisiau lleisio pryderon. Cynnydd mewn llwyth a phwysau gwaith staff gofal.	
5.4 Datblygu a gweithredu proses gynefino orfodol genedlaethol a rhaglen o hyfforddiant parhaus i staff gofal. Dylid datblygu hyn o fewn fframwaith o werthoedd a dylai gynnwys: • Anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn, yn cynnwys pobl hŷn sy'n byw â dementia. • Diogelu oedolion, esgeulustod emosiynol a 'digwyddiadau		.	Cyngor Gofal Cymru Rhagfyr 2015

byth bythoedd'. • Sut i leisio pryderon. • Dulliau cyfathrebu da a dulliau eraill o gyfathrebu i rai sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrau. • Cefnogi heb anablu. • Hawliau pobl hŷn a'r hyn sy'n ddyledus iddyn. • Gofal, tosturi, caredigrwydd, urddas a pharch.			
5.5 Mae'n rhaid i bob cartref gofal gael o leiaf un aelod o'r staff sy'n hyrwyddwr dementia.			Darparwyr Cartrefi Gofal Medi 2015
5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd	Mae gan gartrefi gofal sydd eisiau ac angen gwella ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn fynediad i gyngor, adnoddau a chefnogaeth arbenigol sy'n arwain at well	Mae pobl hŷn yn byw mewn cartrefi gofal ble mae arferion gwael yn parhau, mae eu hansawdd bywyd yn wael ac mae yna risg iddynt ddioddef camdriniaeth ac esgeulustod	Llywodraeth Cymru yn arwain, mewn perthynas âAwdurdodau Lleol

neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl. Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bwyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol. Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunan ddatblygu a gwelliannau parhaus.	gofal a llai o risg.	emosiynol. Mae adnoddau timau comisiynu'n cael eu symud er mwyn cefnogi cartrefi gofal sy'n methu. Cynnydd mewn llwyth a phwysau gwaith staff gofal.	a Byrddau Iechyd a Darparwyr Cartrefi Gofal Medi 2016
5.7 Dylai'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio atgyfnerthu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer staff gofal er mwyn sicrhau bod gweithlu cartrefi gofal yn cael eu rheoleiddio'n gadarn er mwyn gwarchod pobl hŷn.	Mae pobl hŷn yn cael eu diogelu rhag y bobl hynny na ddylai weithio yn y sector.	Mae pobl hŷn yn derbyn gofal a chefnogaeth gan staff gofal nad oes ganddynt y sgiliau, gwerthoedd na'r cymwysterau ar gyfer gweithio mewn cartrefi gofal, ac sy'n golygu risg o niwed ac esgeulustod emosiynol i bobl hŷn. Mae gweithdrefnau fetio a	Welsh Government April 2018

		gwahardd er mwyn atal cyflogi staff anaddas yn darparu amddiffyniad rhannol yn unig i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal.	
5.8 Dadansoddi cost a budd amodau a thelerau staff gofal. Dylai'r dadansoddiad hwn gynnwys effaith cyflwyno cyflog byw a/neu fuddion cyflogaeth safonol, megis tâl gwyliau, oriau dan gontract a thaliadau chwyddo.	Mae gwir werth darparu gofal yn cael ei gydnabod a'i ddeall.	Mae yna gronfa recriwtio gyfyngedig oherwydd anawsterau parhaus o ran recriwtio pobl â'r sgiliau, gwerthoedd a'r cymwysterau priodol.	Llywodraeth Cymru Ionawr 2016

Casgliad Allweddol 6: Mae'r systemau comisiynu, archwilio a rheoleiddio yn anghyson, yn brin o integreiddio a thryloywder, nid ydynt yn ddigon agored, ac nid ydynt yn cydnabod pwysigrwydd ansawdd bywyd yn ffurfiol. **Polisi Llywodraeth Cymru a meysydd deddfwriaethol:** Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol.			
Camau Gofynnol	**Canlyniad**	**Effaith peidio â gweithredu**	**Gan bwy / Erbyn pryd**

6.1 Datblygu un fframwaith canlyniadau o ran ansawdd bywyd a gofal, a manyleb safonol, ar gyfer ei ddefnyddio gan yr holl gyrff sy'n ymwneud â rheoleiddio, darparu a chomisiynu, ac archwilio cartrefi gofal, a dylid ei ffrydio er mwyn iddo fod yn safon ddiffiniol o fewn y Ddeddf Reoleiddio ac Archwilio yn y dyfodol. Mae'n rhaid iddo gynnwys cyfeiriadau at y canlynol*: 1. Annibyniaeth a hunanreolaeth 2. Rheolaeth ar fywyd bob dydd 3. Hawliau, perthnasoedd a rhyngweithio positif 4. Uchelgeisiau (cyflawni, cynnal, dysgu a gwella sgiliau) 5. Iechyd corfforol a lles emosiynol (cynnal a gwella) 6. Diogelwch a gwarchod (rhyddid rhag gwahaniaethu ac aflonyddu) 7. Urddas a pharch	Mae ansawdd bywyd yn rhan ganolog a chyson o ddarparu, rheoleiddio, comisiynu ac archwilio cartrefi gofal preswyl a nyrsio. .	Mae yna amrywiadau annerbyniol o ran y safonau a osodir ar gyfer gofalu am bobl hŷn, ffocws anghyson ar ansawdd bywyd a gofynion anghyson a chroes ar ddarparwyr.	Llywodraeth Cymru Ebrill 2015

8. Amddiffyniad rhag cam-drin ariannol 9. Derbyn gwasanaethau o safon uchel *Ffynhonnell: Fframwaith Canlyniadau Sir Y Fflint			
6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.	Mae gan gomisiynwyr, darparwyr ac archwilwyr ddealltwriaeth drylwyr o ansawdd bywyd bob dydd pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal (Cam 6.2, 6.3). Mae safbwyntiau pobl hŷn am eu gofal ac ansawdd bywyd yn cael eu casglu a'u rhannu yn rheolaidd a'u defnyddio i yrru gwelliannau parhaus (Cam 6.2, 6.3).	Ni ddelir â materion cyn iddynt ddod yn sylweddol, yn ddylanwadol ac yn ddrud i'w hunioni (Cam 6.2, 6.3). Mae cyfleoedd i wneud mân newidiadau a all wneud gwahaniaethau arwyddocaol i ansawdd bywyd a gofal yn cael eu colli. Nid yw materion diogelu yn cael eu nodi yn gynnar. Mae pobl hŷn yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu, eu bod yn ddi-rym ac na allant ddylanwadu ar faterion sy'n	Darparwyr Cartrefi Gofal ac Awdurdodau LleolaByrddau Iechyd ac AGGCC Ebrill 2015
6.3 Defnyddir aseswyr lleyg yn barhaus fel rhan ffurfiol ac arwyddocaol o'r broses archwilio.			AGGCC Ebrill 2015

		effeithio ar eu bywydau.	
6.4 Mae'n rhaid datblygu a gweithredu system integredig o archwilio iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn darparu craffu effeithiol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal iechyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal. .	Mae ansawdd bywyd a gofal iechyd pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal nyrsio yn cael ei asesu mewn ffordd effeithiol, ac adroddir yn ôl ar hyn yn flynyddol, yn eglur a chydgysylltiedig (Cam 6.4, 6.5, 6.6).	Nid yw arferion gwael yn cael eu hadnabod ac mae yna fwy o risg i bobl hŷn ddioddef niwed neu nid ydynt yn derbyn yr hyn sy'n ddyledus iddynt (Cam 6.4, 6.5, 6.6).	Llywodraeth Cymru yn arwain Rhagfyr 2015 (Cam 6.4, 6.5, 6.6)
6.5 Dylid cyhoeddi adroddiadau integredig blynyddol rhwng arolygiaethau sy'n darparu asesiad o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi nyrsio unigol.			
6.6 Dylid cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ansawdd gofal clinigol pobl hŷn mewn cartrefi nyrsio yng Nghymru, yn unol â'r Hanfodion Gofal.			
6.7 Datganiadau Ansawdd	Mae gan bobl hŷn fynediad i	Mae diffyg tryloywder yn	Awdurdodau

Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys: • argaeledd eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal • ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, yn cynnwys cyfeiriad penodol at bobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrau • safbwyntiau pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg ynghylch yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal • lleoliad daearyddol cartrefi gofal Dylai manylion ychwanegol ynghylch gofynion adrodd yn ôl gael eu	wybodaeth berthnasol ac ystyrlon am yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir gan neu a geir mewn cartrefi gofal unigol, ac mae yna fwy o ddidwylledd a thryloywder mewn perthynas â safonau cartrefi gofal o gwmpas Cymru a'r gofal maent yn ei ddarparu (Cam 6.7, 6.8, 6.9, 6.10).	tanseilio gallu pobl hŷn i wneud penderfyniadau priodol, yn tanseilio hyder y cyhoedd ac yn gweithredu fel rhwystr i newid systematig. .	Lleol ac Amlinelliad o DAB Medi 2015

cynnwys fel rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio. sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws yr Awdurdod Lleol			
6.8 Mae Byrddau Iechyd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio yn eu Datganiadau Ansawdd Blynyddol: • defnydd amhriodol o gyffuriau gwrthseicotig • mynediad i gefnogaeth iechyd meddwl a lles • mynediad i atal cwympiadau • mynediad i wasanaethau ailalluogi • cefnogaeth i gynnal golwg a chlyw			Byrddau Iechyd Medi 2015

Datblygu meysydd eraill sydd i'w cynnwys fel rhan o ganllawiau DAB a gyhoeddir yn flynyddol.			
6.9 Prif Archwilydd Gwasanaeth Cymdeithasol yn cyhoeddi, fel rhan o'i Hadroddiad Blynyddol, wybodaeth am ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal, a hynny'n cynnwys y canlynol: • ansawdd bywyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal sy'n gaeth i'r gwely • ansawdd bywyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal sy'n byw â dementia • ansawdd bywyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal sy'n colli defnydd o synhwyrau • gweithredu cynlluniau gofal mewn cartrefi pobl hŷn • cywirdeb datganiadau allanol gan ddarparwyr annibynnol			AGGCC Adroddiad Blynyddol

• sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws Cymru			
6.10 ae darparwyr cartrefi gofal yn adrodd yn ôl yn flynyddol ar ddarparu ansawdd bywyd a gofal i bobl hŷn. Bydd hyn yn cynnwys: 6.11 Lefelau a sgiliau staff yn cynnwys trosiant staff, y defnydd o staff asiantaeth a buddsoddi mewn hyfforddi Nifer yr atgyfeiriadau AOAN, cwynion a rhybuddion gwella, yn cynnwys manylion llawn am gamau gwella pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â **chartrefAnsawdd** bywyd pobl hŷn yn erbyn y Fframwaith Ansawdd safonol a'r Fanyleb Atodol			Darparwyr Cartrefi Gofal Rhagfyr 2015
6.11 Datblygu rhaglen hyfforddi genedlaethol yn seiliedig ar gymhwysedd ar gyfer comisiynwyr,	Mae pobl hŷn yn cael eu rhoi mewn cartrefi gofal all fodloni eu gofynion gan	Mae pobl hŷn yn cael eu rhoi mewn cartrefi gofal nad ydynt yn gallu bodloni eu	Cyngor Gofal Cymru

er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn adlewyrchu anghenion pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal wrth gomisiynu, yn cynnwys anghenion pobl sy'n byw â dementia.	gomisiynwyr sy'n deall cymhlethdodau darparu gofal ac sy'n gallu herio darparwyr ynghylch gofal annerbyniol am bobl hŷn.	hanghenion. Nid yw comisiynwyr yn gallu herio arferion gwael. .	Rhagfyr 2015

Casgliad Allweddol 7: Mae diffyg cynllunio ymlaen llaw ar hyn o bryd yn golygu na fydd anghenion pobl hŷn mewn cartrefi gofal yn cael eu bodloni yn y dyfodol. **Polisi Llywodraeth Cymru a meysydd deddfwriaethol:** Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol.			
Camau Gofynnol	**Canlyniad**	**Effaith peidio â gweithredu**	**Gan bwy / Erbyn pryd**
7.1 Datblygu cynllun cenedlaethol i sicrhau cyflenwad o gartrefi gofal o safon yn y dyfodol, sy'n cynnwys: • Rhagamcaniad demograffig cenedlaethol o'r angen, yn cynnwys tueddiadau a'r	Mae cynllunio ymlaen llaw yn sicrhau bod yna nifer digonol o gartrefi gofal o'r math cywir ac yn y mannau cywir ar gyfer pobl hŷn.	Nid yw pobl hŷn yn derbyn gofal yn eu cymunedau eu hunain nac mewn lleoliad o'u dewis, ac maent yn byw mewn cartrefi gofal nad ydynt yn gallu bodloni eu lefelau aciwtedd a dibyniaeth.	Llywodraeth Cymru Ionawr 2016

newidiadau a ragwelir o ran math y ddarpariaeth fydd ei angen o ganlyniad i aciwtedd a dibyniaeth gynyddol • datganiad eglur ynglŷn â'r math o sylfaen/marchnad darparwyr a ffefrir yng Nghymru • dadansoddiad cenedlaethol o rwystrau rhag mentro i'r farchnad • datganiad eglur ynglŷn â buddsoddiad i dyfu sectorau gofal cymdeithasol sy'n fentrau cymdeithasol a chydweithredol, yn arbennig mewn ardaloedd sydd â sylfaen isel o ddarparwyr. • Cynllun gweithredu eglur ar gyfer cyflawni'r sylfaen/marchnad darparwyr a ffefrir.			
7.2 Rhagamcanion cynllunio Gweithlu'r GIG yn nodi'r lefel nyrsio	Mae cynllunio ymlaen llaw a recriwtio ysgogol a	Cartrefi gofal nyrsio yn cau oherwydd anawsterau wrth	Llywodraeth

angenrheidiol presennol ac yn y dyfodol yn y sector gofal preswyl a nyrsio; yn cynnwys gofal am bobl hŷn sy'n byw â phroblemau iechyd meddwl, dirywiad gwybyddol a dementia.	chefnogaeth gyrfa yn sicrhau bod yna nifer digonol o nyrsys arbenigol, yn cynnwys nyrsys iechyd meddwl, ar gyfer darparu gofal nyrsio o safon uchel a chanlyniadau ansawdd bywyd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal o gwmpas Cymru (Cam 7.2, 7.3).	recriwtio nyrsys cymwys, neu mae pobl hŷn yn cael eu rhoi mewn cartrefi gofal nad ydynt yn gallu bodloni eu hanghenion (Cam 7.2, 7.3).	Cymru Mawrth 2015
7.3 Mae'r GIG yn gweithio â'r sector cartrefi gofal er mwyn ei ddatblygu fel rhan allweddol o'r llwybr gyrfa nyrsio, yn cynnwys darparu cefnogaeth datblygu proffesiynol a chymheiriaid llawn i nyrsys sy'n gweithio mewn cartrefi gofal.			Byrddau Iechyd Mawrth 2016